

# Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn amlinellu asesiad cost a budd cychwynnol o opsiynau i wreiddio egwyddorion amgylcheddol o fewn cyfraith Cymru, sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol, a chyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol.

Cyhoeddwyd yn gyntaf ar: 30 Ionawr  
Diweddarwyd y tro diwethaf ar: 30 Ionawr

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Crynodeb o Ganlyniadau'r Bil .....	3
Pam mae angen deddfwriaeth sylfaenol? .....	3
Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol.....	5
Crynodeb o'r Cynigion .....	5
Arfarnu Opsiynau.....	6
Opsiw 1 – Busnes fel arfer .....	6
Opsiw 2 – Egwyddorion yn unig .....	7
Opsiw 3 – Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion (Opsiw a Ffebrir) .....	7
Opsiw 4 – Dyletswydd ar Gyrrff Cyhoeddus Cymru .....	8
Casgliad.....	10
Rhan B – Corff Llywodraethiant Amgylcheddol .....	11
Cefndir i Gynigion y Corff Llywodraethiant.....	11
Crynodeb o'r cynigion .....	12
Meini prawf ar gyfer asesu model llywodraethiant amgylcheddol yn y dyfodol .	13
Arfarnu Opsiynau.....	14
Opsiw 1 – Busnes fel Arfer .....	14
Opsiw 2 – Rhoi swyddogaethau i gyrrff presennol .....	16

Opsiwn 3 – Sefydlu corff penodedig.....	21
Opsiwn 3a - Model comisiwn sy'n cael ei gyfansoddi fel Corff Cyhoeddus Anadrannol (Yr opsiwn a ffefrir).....	21
Opsiwn 3b - Model Comisiynydd dros yr Amgylchedd .....	23
Opsiwn 3c - Model Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru .....	24
Opsiwn 4 – Gofyn i Lywodraeth y DU ymestyn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru .....	27
Casgliad.....	29
Cyllid a Fforddiadwyedd .....	31
Rhan C Targedau Bioamrywiaeth.....	32
Cyflwyniad .....	32
Opsiyau .....	33
Opsiwn 1 1 - Busnes fel Arfer.....	33
Opsiwn 2 – Mesurau anneddfwriaethol: .....	34
Opsiwn 3: Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth Statudol .....	37
Costau .....	40
Cost Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer.....	40
Cost Opsiwn 2 – Mesurau anneddfwriaethol.....	46
Cost Opsiwn 3 – Cynnwys Cyfres o Dargedau Bioamrywiaeth.....	46
Crynodeb o'r Costau: .....	49
Manteision .....	50
Disgrifiad o Fanteision.....	51
Amcangyfrif o Fanteision Gwerth Presennol ar gyfer y Targed Cynefinoedd Ehangach.....	53
Amcangyfrif o Fanteision Gwerth Presennol Camau Gweithredu Safleoedd Gwarchoddedig ar gyfer Targedau Rhywogaethau .....	54
Cyfanswm Manteision .....	55
Gwerth Presennol Net .....	56
Gwerth Presennol Net Opsiwn 1 .....	56
Gwerth Presennol Net Opsiwn 3 .....	56
Crynodeb o Werth Presennol Net. ....	56
Casgliad.....	57

# Cyflwyniad

## Crynodeb o Ganlyniadau'r Bil

1. Mae hwn yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n ategu'r ymgynghoriad ar y papur gwyn "Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach", sy'n amlinellu cynigion deddfwriaethol i gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol ymhellach er budd cenedlaethau'r dyfodol mewn tri maes allweddol:
  - A. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
  - B. Llywodraethiant Amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru; a
  - C. Fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.
2. Mae'r cynigion wedi cael eu llywio gan brosesau ymgynghori ac ymgysylltu blaenorol, gan gynnwys [ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn 2019](#), adroddiad [grŵp gorchwyl a gorffen yn 2020](#), yn ogystal â sefydlu [Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru](#) (IEPAW) ac ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid. Mae'r papur gwyn yn ceisio datblygu'r ymgysylltiad hwn trwy gyflwyno cynigion clir at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus.
3. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn amlinellu asesiad cost a budd cychwynnol o'r opsiynau ac mae'n ddogfen sy'n datblygu. Rydym yn chwilio am dystiolaeth ychwanegol ac amgen i helpu i lywio'r asesiad terfynol a fydd yn rhan o femorandwm esboniadol a gyhoeddir ochr yn ochr ag unrhyw Fil yn y dyfodol.

## Pam mae angen deddfwriaeth sylfaenol?

4. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y cynigion polisi sy'n cael eu hamlinellu yn y Papur Gwyn:
  - Mae'r cynigion ar gyfer **egwyddorion amgylcheddol** yn ceisio ailsefydlu 5 egwyddor graidd yn llyfr statud Cymru, sy'n cynnwys yr egwyddor integreiddio, yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, a'r egwyddor cywiro yn y ffynhonnell. Roedd yr egwyddorion hyn wedi'u sefydlu o'r blaen yn y DU trwy ddeddfwriaeth yr UE ac nid ydynt yn gymwys yng Nghymru bellach ers ymadael â'r UE. Felly, mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi'r egwyddorion hyn ar sail statudol yng Nghymru.
  - Prif bwrpas y **corff llywodraethiant amgylcheddol** arfaethedig fydd goruchwyllo sut mae awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac yn cydymffurfio â hi. Bydd angen ei sefydlu mewn statud fel bod ganddo'r swyddogaethau angenrheidiol mewn deddfwriaeth a fydd yn ei alluogi i gynghori, ymchwilio a gorfodi yn effeithiol.
  - Bydd y dull o sefydlu **targedau bioamrywiaeth** yn cynnwys targed pennawd natur-bositif i 'wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda

gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050' gyda'r nod o sbarduno uchelgais a champau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Cefnogir hyn ymhellach drwy'r canlynol:

- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cyfres o dargedau bioamrywiaeth atodol statudol, trwy is-ddeddfwriaeth i gefnogi'r targed pennawd natur-bositif, yn ogystal â phwerau i gynnwys targedau interim ac i ddiwygio, dirymu neu ddisodli'r targedau bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
  - cryfhau'r broses o gyflwyno, monitro ac adrodd ar y targedau.
  - dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru hirdymor statudol sy'n amlinellu sut y bydd ein targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni.
  - dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus allweddol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth.
5. Bydd y dull gweithredu hwn yn cefnogi ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio "i weithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth". Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Mehefin 2023, fe wnaeth y Prif Weinidog hefyd ymrwymo i gyflwyno Papur Gwyn erbyn mis Ionawr 2024 a Bil i sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru, yn ystod tymor y Senedd hon.
6. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r sail resymegol dros ddeddfwriaeth, a'r asesiad cost/budd, yn yr adran berthnasol.

# Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol

## Crynodeb o'r Cynigion

1. Ers ymadael â'r UE, mae rôl egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi newid, ac nid yw'r strwythurau llywodraethiant amgylcheddol bellach yn gymwys yng Nghymru. Yn ystod tymor y Senedd flaenorol, gofynnodd Llywodraeth Cymru am safbwyntiau ar sut i ddarparu fframwaith llywodraethiant amgylcheddol effeithiol i Gymru a oedd yn datblygu'r fframweithiau sy'n rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf Amgylchedd Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol).
2. Roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad 2019 yn gryf o blaid cyflwyno cyfres o egwyddorion amgylcheddol i lywio datblygiad cyfraith amgylcheddol Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnwys pedair egwyddor amgylcheddol yr UE: yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Awgrymwyd egwyddorion ychwanegol gan rai, gyda llawer ohonynt yn cyfeirio at y gofyniad i integreiddio sy'n rhan o fframwaith yr UE.
3. Cefnogwyd y pwyntiau hyn gan Grŵp Gorchwyl 2020, a oedd yn argymhell y dylid darparu ar gyfer pedair egwyddor amgylcheddol yr UE (yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) yn neddfwriaeth Cymru ac y dylid cydnabod yn glir y rhyngweithio rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill (h.y. trwy egwyddor integreiddio).
4. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd yn teimlo y dylid sefydlu'r egwyddorion yn glir o fewn deddfwriaeth ar wahân fel rhan o ddull gweithredu sylfaenol, yn hytrach na thrwy ddiwygio deddfwriaeth bresennol. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn cytuno â hyn, gan ddweud nad oedd Deddf Amgylchedd Cymru yn fframwaith ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol, ond y dylid ei ystyried yn lasbrint ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y mae modd ei ddatblygu dros amser. Daethant i'r casgliad mai'r ffordd orau o wreiddio egwyddorion amgylcheddol yr UE fyddai darparu ar eu cyfer mewn ffordd sy'n caniatáu dull mwy systemig sy'n osgoi gorgymhlethu deddfwriaeth bresennol. Un o argymhellion eraill y Grŵp Gorchwyl oedd yr angen i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi'r egwyddorion amgylcheddol hyn ar waith wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth.
5. Derbyniodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd yr argymhellion hynny, ac yn ogystal, derbyniodd mewn egwyddor argymhelliad i archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gyrrff cyhoeddus eraill fel mater ar wahân.
6. At hynny, yn 2021, cyflwynodd Seneddau'r DU a'r Alban ddeddfwriaeth i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol, i fod yn gymwys i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth debyg yn y Senedd eto, sy'n golygu nad yw'r egwyddorion amgylcheddol wedi'u

hymgorffori'n uniongyrchol yng nghyfraith Cymru. Mae hyn wedi arwain at "fwlch egwyddorion" yng Nghymru.

7. Mae'r cefndir hwn yn sylfaen i'n cynigion, sy'n cael eu crynhoi fel hyn:
  - a) Gwreiddio'r pum egwyddor amgylcheddol sy'n deillio o'r UE yn neddfwriaeth Cymru
    - i. Integreiddio
    - ii. Yr egwyddor ragofalus
    - iii. Yr angen i gymryd camau ataliol
    - iv. Y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw niwed amgylcheddol yn y ffynhonnell,
    - v. Y dylai'r llygrwr dalu.
  - b) Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i egluro sut y bwriedir i'r egwyddorion amgylcheddol gael eu dehongli.
  - c) Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisiau a'u deddfwriaeth.
8. Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynigion hyn drwy ymarfer ymgynghori cyhoeddus y papur gwyn. Felly, bydd ein harfarniad o opsiynau yn adlewyrchu allbwn yr ymarfer hwn, ond dangosir ein dadansoddiadau a'n ffordd o feddwl hyd yma yn yr adrannau nesaf.

## **Arfarnu Opsiynau**

### ***Opsiwn 1 – Busnes fel arfer***

9. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfraith Cymru. Byddai hyn yn golygu na fyddai 'bwlch egwyddorion' y DU yn cael ei ddatrys, gallai mesurau i ddiogelu'r amgylchedd fod yn wannach yng Nghymru, a gallai unrhyw ddeddf yr UE yn ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol sy'n cael ei 'chymhathu' yn y DU fod yn anweithredol yng Nghymru.

### ***Costau***

10. Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol cysylltiedig. Fodd bynnag, gallai'r diffyg egwyddorion amgylcheddol fod yn gostus dros amser oherwydd y tebygolrwydd y byddai penderfyniadau gweithredol o dan gyfraith a gymhathwyd yn wynebu mwy o her yn y llysoedd, o ystyried amwysedd o ran sut y byddai'r egwyddorion yn berthnasol i'r DU.

### ***Manteision***

11. Ni fydd unrhyw fanteision yn deillio o opsiwn 1. Fodd bynnag, gallai anfanteision posibl gynnwys:

- Mwy o risg o her gyfreithiol mewn perthynas â phenderfyniadau gweithredol o dan gyfraith a gymhathwyd
- Diffyg cysondeb neu gydlyniant ag uchelgeisiau amgylcheddol ehangach Llywodraeth Cymru
- Mae cyfeiriad at egwyddorion amgylcheddol wedi'i gynnwys yng Nghytundeb Parhad Masnach y DU a'r UE. Mae'n bosibl y byddai Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i Gymru ymgorffori'r egwyddorion er mwyn bodloni ymrwymïadau'r Cytundeb.

## ***Opsiwn 2 – Egwyddorion yn unig***

12. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r egwyddorion yn cael eu hailgyflwyno i lyfr statud Cymru, ond ni fyddai dyletswydd ar Weinidogion Cymru na chyrrff cyhoeddus i roi 'sylw dyladwy' i'r egwyddorion.

### ***Costau***

13. Byddai goblygiadau ariannol cyfyngedig i opsiwn 2, gyda dim ond y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â deddfu yn y Senedd.

### ***Manteision***

14. Prif fantais dewis opsiwn 2 yw'r ffaith y byddai'n mynd i'r afael â bwch egwyddorion y DU ac yn lliniaru'r risg o gyfraith a gymhathwyd yn cyfeirio at egwyddorion amgylcheddol nad ydynt yn bodoli yng nghyfraith Cymru.
15. Byddai'r dull gweithredu hwn hefyd yn golygu y gellid llunio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol mewn ffordd sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr egwyddorion. Fodd bynnag, ni fydd yn creu'r status quo yng Nghymru a oedd yn bodoli cyn i ni ymadael â'r UE, gan na fydd yn cynnwys gofyniad penodol i'r hyn sy'n cyfateb i aelod-wladwriaeth roi sylw i'r egwyddorion wrth wneud penderfyniadau polisi.

## ***Opsiwn 3 – Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion (Opsiwn a Ffefrir)***

16. Yn ogystal â gwreiddio'r egwyddorion, mae opsiwn 3 yn ystyried gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisïau a deddfwriaeth. Diben hyn yw sicrhau, ar sail statudol, y bydd polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan roi sylw dyladwy i'r egwyddorion.

### ***Costau***

17. Byddai gan opsiwn 3 mân oblygiadau ariannol ychwanegol. Yn ogystal â'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â deddfu yn y Senedd, bydd angen i Weinidogion Cymru ddangos sut y maent wedi rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion amgylcheddol wrth ddatblygu eu polisïau.

18. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i lunio polisïau. Yn ymarferol, adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lunio polisïau o dan gyfarwyddyd Gweinidogion fel rheol, ac mae cyngor yn cael ei gyflwyno wedyn i'w ystyried cyn gwneud penderfyniad.
19. Yn y cyd-destun hwn, bydd angen sicrhau bod adnoddau fel hyfforddiant a chanllawiau ar gael i adrannau polisi er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Yn ogystal, gellid gwneud diwygiadau i dempledi cyngor gweinidogol i sicrhau bod pob penderfyniad polisi wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd hon.
20. Mae'n anodd mesur y costau gweinyddol hyn, ond disgwylir iddynt fod yn fach iawn ar y sail y gellid ymgorffori'r ddyletswydd mewn strwythurau ac arferion presennol ar gyfer llunio polisïau. Bydd dadansoddi pellach yn cael ei gwblhau i adlewyrchu'r costau hyn wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
21. Yn ogystal, bydd y corff llywodraethiant amgylcheddol a gynigir drwy'r Papur Gwyn yn cyfrannu at y gwaith o asesu cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, a fydd yn cynnwys y ddyletswydd i roi sylw i egwyddorion. Gan fod yr opsiwn hwn yn berthnasol i Weinidogion Cymru yn unig, ni fyddai angen gwaith monitro sylweddol, ac ni chredir y bydd yn arwain at gostau cysylltiedig mawr i'r corff ei hun.

### ***Manteision***

22. Byddai proses o ymgorffori'r egwyddorion yn y gyfraith ac yna gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw iddynt yn mynd i'r afael â'r bwlch egwyddorion i bob pwrpas, gan ddychwelyd i'r status quo yng Nghymru a oedd yn bodoli cyn i ni ymadael â'r UE. Trwy osod y ddyletswydd hon ar Weinidogion Cymru, bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn sylfaen ddiamwys i unrhyw bolisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol. Mae'r dull gweithredu hwn yn fwy cyson ag uchelgeisiau a blaenoriaethau amgylcheddol ehangach Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun argyfwng natur ac argyfwng hinsawdd datganedig y Senedd.
23. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn sylfaen i bolisi ar lefel strategol - h.y. gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, un anfantais bosibl yw'r posibilrwydd na fydd yn berthnasol yn uniongyrchol i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel fwy lleol gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus ac ati.

### ***Opsiwn 4 – Dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus Cymru***

24. O dan opsiwn 4, rydym yn ystyried ehangu'r opsiynau blaenorol drwy gyflwyno'r egwyddorion a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru **ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol** i roi sylw i'r egwyddorion (ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig) wrth ddatblygu eu polisïau a deddfwriaeth.



25. Rydym wedi ystyried a ddylid gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig, ac os felly, sut y dylid gwneud hynny.

### **Costau**

26. Byddai gan opsiwn 4 oblygiadau ariannol ychwanegol. Yn ogystal â'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â deddfu yn y Senedd, byddai angen i Weinidogion Cymru a phob awdurdod cyhoeddus perthnasol ddangos sut y maent wedi rhoi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth ddatblygu eu polisiau.
27. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i lunio polisiau, ac yn Llywodraeth Cymru, yn ymarferol, adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lunio polisiau o dan gyfarwyddyd Gweinidogion fel rheol, ac mae cyngor yn cael ei gyflwyno wedyn i'w ystyried cyn gwneud penderfyniad. Mae dulliau awdurdodau cyhoeddus eraill o lunio polisiau yn fwy amrywiol, a bydd yn anodd eu codeiddio trwy un dull 'sy'n addas i bawb'.
28. Yn yr un modd â'r opsiwn ar gyfer Gweinidogion Cymru, gall defnyddio adnoddau fel hyfforddiant a chanllawiau helpu i sicrhau bod sefydliadau'n gallu dangos eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, gan y bydd yn gymwys i lawer o gyrff cyhoeddus, mae posibilrwydd mawr o ddyblygu ymdrech, gan arwain at gostau gweinyddol sylweddol o bosibl, o ystyried y gallai effeithio ar dros 50 o sefydliadau (a ystyrir yn Atodiad 2 o'r papur gwyn).
29. Mae'n anodd mesur y costau gweinyddol hyn, ond os ydynt yn cael eu cynnwys mewn strwythurau ac arferion llunio polisiau presennol, gallent fod yn fach iawn.
30. Yn ogystal, bydd y corff llywodraethiant amgylcheddol a gynigir drwy'r Papur Gwyn yn cyfrannu at y gwaith o asesu cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, a fydd yn cynnwys y ddyletswydd i roi sylw i egwyddorion. Gan fod yr opsiwn hwn yn berthnasol i Weinidogion Cymru a mwy na 50 o awdurdodau cyhoeddus Cymru yn unig, byddai angen iddynt wneud gwaith monitro sylweddol i sicrhau bod pob corff yn cydymffurfio â'r elfen hon o gyfraith amgylcheddol.
31. Bydd trafodaeth bellach yn cael ei chynnal ag awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru drwy gydol y cyfnod ymgynghori er mwyn amcangyfrif costau'r opsiwn hwn.

### **Manteision**

32. Prif fantais gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw i'r egwyddorion fyddai sicrhau bod modd ystyried yr egwyddorion ar lefel fwy lleol wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, wrth ddatblygu polisiau cynllunio neu dai, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol, llawer ohonynt yn seiliedig ar yr egwyddorion. Hefyd, o dan opsiwn 4, byddai'n rhaid iddynt ystyried y pum egwyddor eu hunain fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
33. Gan y byddai gosod y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn unol â'r cynnig o dan opsiwn 3 yn golygu y bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso yn y cam llunio polisi strategol, credir y dylai hyn raeadru i faes polisi

gweithredol a chyflawni trwy fod ar y lefel uchaf. Bydd Llywodraeth Cymru eisoes yn goruchwyllo awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, a bydd y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus eu hystyried wrth wneud penderfyniadau wedi cael eu llunio ar ôl rhoi sylw i'r egwyddorion. Felly, gall fod yn anghymesur gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus (hyd yn oed cyrrff eraill sy'n llunio polisiâu cyhoeddus), i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol os oes trefniadau goruchwyliaeth lywodraethol eisoes ar waith.

34. Yn y cyd-destun hwn mae hefyd yn anodd asesu manteision cymhwyso'r egwyddorion ar 'lefel is' y broses o wneud penderfyniadau. O ystyried y costau gweinyddu anhysbys a'r dyblygu costau ar gyfer awdurdodau a'r corff llywodraethiant arfaethedig, mae'r opsiwn hwn yn cynnwys risg sylweddol, ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd o fanteision yr opsiwn hwn ar hyn o bryd.

## **Casgliad**

35. Ar sail yr opsiynau a nodwyd, rydym wedi dod i'r casgliad mai Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffeifrir, ac y byddai'n golygu gwreiddio'r pum egwyddor yn llyfr statud Cymru a gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i'r egwyddorion hyn.
36. O ran cydbwysu risg, rydym yn credu y byddai'r opsiwn hwn yn cyflawni prif amcanion y polisi trwy sicrhau bod yr egwyddorion amgylcheddol wrth wraidd polisiâu a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn rhagori ar y status quo a oedd yn bodoli cyn Brexit gan y byddai'n cael ei gymhwyso yng nghyd-destun Cymru yn benodol, a byddai angen i Weinidogion Cymru fod â phroses i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.
37. Mae opsiwn 4 yn ystyried ymestyn hyn ymhellach i gynnwys awdurdodau cyhoeddus perthnasol (sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 2 o'r Papur Gwyn). Er bod gwaith dadansoddi hyd yn hyn yn dangos na fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at lawer o fanteision ac y gallai greu costau gweinyddol uchel, mae angen mwy o dystiolaeth i ystyried hyn yn fanwl. Byddwn yn ymgysylltu'n benodol â rhanddeiliaid ar y pwynt hwn trwy'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, yn ogystal â thrwy ymgysylltiad wedi'i dargedu â'r cyrrff a allai gael eu heffeithio.

# Rhan B – Corff Llywodraethiant Amgylcheddol

## Cefndir i Gynigion y Corff Llywodraethiant

1. Cyn ymadael â'r UE, bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro'r broses o weithredu cyfraith yr UE, a chydymffurfiaeth â hi, gan y DU. Pe bai'r DU wedi methu â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, yna roedd y pŵer gan y Comisiwn Ewropeaidd i ymchwilio ac i gymryd camau gorfodi. Roedd hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfraith amgylcheddol oherwydd bod llawer o'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru naill ai'n gyfraith yr UE wedi'i throsglwyddo neu'n gyfraith yr UE uniongyrchol effeithiol.
2. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid oes gan y Comisiwn Ewropeaidd y rôl oruchwylio hon mwyach yn y DU. Cafodd trefniadau llywodraethiant amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE eu hystyried yn fanwl yn ystod ymgynghoriad 2019, gyda ffocws penodol ar ddatblygu corff goruchwylio annibynnol i oruchwylio gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.
3. Roedd ymgynghoriad 2019 yn ceisio barn ar bwrpas, amcanion a swyddogaethau corff o'r fath, gan gynnwys amcanion uchelgeisiol a fyddai'n gymwys i ystod eang o awdurdodau cyhoeddus Cymru. Cafwyd cymeradwyaeth glir i'r dull gweithredu a lefel yr uchelgais ymysg ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a chafodd y cynigion eu llunio ymhellach gan y Grŵp Gorchwyl yn 2020. At hynny, roedd ymatebwyr yn deall yn glir y cyfle i ailsefydlu yn ogystal â gwella'r oruchwyliaeth hon dros gyfraith amgylcheddol ers Brexit a'i fod yn cryfhau'r achos dros sefydlu corff llywodraethiant newydd i Gymru.
4. Mae'r achos hwn o blaid newid wedi'i atgyfnerthu ymhellach trwy waith parhaus Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW). Mae wedi cyflawni rôl werthfawr mewn perthynas â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ond mae ei gylch gwaith a'i bwerau yn llai eang na'r trefniadau a oedd yn bodoli cynt o dan fframwaith llywodraethiant amgylcheddol yr UE. Yn benodol, nid oes gan yr IEPAW bwerau ymchwilio a gorfodi statudol i fynd i'r afael â chwynion am gydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.
5. Ar ôl ymgynghoriad 2019 a Grŵp Gorchwyl 2020, sefydlwyd dau gorff llywodraethiant amgylcheddol newydd mewn rhannau eraill o'r DU:
  - Mae **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP)**, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a noddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Mae'n goruchwylio awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli yng Nghymru, ac yn monitro a yw awdurdodau cyhoeddus o'r fath yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
  - Mae **Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS)**, a sefydlwyd gan Ddeddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol sy'n craffu, ymchwilio

ac yn ceisio sicrhau gwelliannau o ran effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yn yr Alban, a chydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban. Mae'r ESS hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth yr Alban ar bolisi amgylcheddol.

6. Yn y cyd-destun hwn rydym yn cynnig sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol statudol i Gymru ("y corff llywodraethiant") trwy ddeddfwriaeth. Bydd y corff llywodraethiant yn helpu i gynnal a gwella safonau uchel o ddiogelu'r amgylchedd trwy oruchwylio sut mae awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu ac yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

## **Crynodeb o'r cynigion**

7. Prif bwrpas y corff llywodraethiant fydd goruchwylio sut mae awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu ac yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.
8. Wrth geisio cyflawni'r pwrpas hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r corff llywodraethiant gael ei ddiffinio gan fframwaith clir. Rydym felly yn cynnig y dylai'r corff llywodraethiant wneud y canlynol:
  - a. Monitro a chynghori Gweinidogion Cymru ar ddatblygu cyfraith a pholisi amgylcheddol yng Nghymru.
  - b. Derbynn cwynion/sylwadau gan y cyhoedd ynghylch methiannau honedig gan awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
  - c. Monitro sut mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i fethiannau honedig i gydymffurfio, a chymryd camau gorfodi os oes angen.
  - d. Gwneud gwaith craffu a goruchwylio annibynnol ar gyflawni unrhyw dargedau amgylcheddol statudol a bennir gan Weinidogion Cymru (megis y fframwaith targed bioamrywiaeth newydd sy'n cael ei gynnig yn y Bil hwn).
  - e. Darparu cyngor arbenigol, fel y mae'n credu sy'n angenrheidiol, i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol.
  - f. Mabwysiadu dull blaengar ac ataliol, gan hybu canfod cynnar, asesu ac ymyrryd rhagweithiol yn erbyn risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng nghyd-destun gweithrediad cyfraith amgylcheddol a'i rhoi ar waith yn effeithiol.
  - g. Ymarfer ei swyddogaethau'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac yn ddiudedd.
  - h. Gweithio'n adeiladol i ategu a chydweddu â chyrrff cyhoeddus a sefydlwyd eisoes i fonitro awdurdodau cyhoeddus Cymru, craffu arnynt, eu cynghori neu eu dwyn i gyfrif, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- i. Lle bo'n briodol, gweithio ar y cyd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin mewn perthynas â gweithrediad cyfraith amgylcheddol a'i rhoi ar waith yn effeithiol, gyda'r OEP a'r ESS.
  - j. Pwysu ar ymarfer o fewn yr Undeb Ewropeaidd, tra'n cydnabod y fframwaith deddfwriaethol penodol sydd ar waith yng Nghymru.
9. Rydym wedi ystyried opsiynau amrywiol a allai gyflawni'r diben hwn, ar sail meini prawf asesu sydd wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid yn dilyn gwaith ymgynghori ac ymgysylltu blaenorol.

### ***Meini prawf ar gyfer asesu model llywodraethiant amgylcheddol yn y dyfodol***

10. Ar sail y fframwaith uchod, rydym wedi nodi nifer o swyddogaethau craidd y bydd eu hangen er mwyn cyflawni'n effeithiol yn erbyn y fframwaith hwn. Maent yn cynnwys:
- a. Monitro ac adrodd - Casglu data, adrodd yn flynyddol a fesul achosion unigol, a gwerthuso effeithiolrwydd y gyfraith amgylcheddol bresennol yng Nghymru.
  - b. Craffu ar dargedau - Monitro targedau statudol fel y maent yn ymwneud â deddfwriaeth amgylcheddol, ac adrodd yn rheolaidd, gan gynnwys trwy'r adroddiad blynyddol ar sut mae'r targedau hyn yn cael eu cyflawni.
  - c. Darparu cyngor - Cyngor i Weinidogion Cymru ar newidiadau i gyfraith amgylcheddol, polisi ehangach a materion cydymffurfio systematig; neu i awdurdodau cyhoeddus Cymru ar ôl ystyried cwynion nad oes angen ymchwiliad llawn iddynt a/neu le nad oes angen cymryd camau gorfodi ffurfiol o bosibl.
  - d. Ymdrin â chwynion/sylwadau - Ystyried sylwadau gan y cyhoedd yn ymwneud â sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu / yn cael ei rhoi ar waith yn ogystal ag achosion honedig o dorri cyfraith o'r fath gan awdurdodau cyhoeddus Cymru.
  - e. Ymchwilio - Pwerau i gasglu tystiolaeth ac ymchwilio'n effeithiol i achosion honedig o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru.
  - f. Gorfodi - Pwerau i orfodi awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys uwchgyfeirio i'r llysoedd, adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil.
  - g. Partneriaeth - Dyletswyddau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd.
11. Yn ogystal, daeth ymatebion i ymgynghoriad 2019 a'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid i'r casgliadau hyn:
- dylid cadw swyddogaeth cyrff atebolrwydd presennol yng Nghymru. Ni ddylai unrhyw lywodraethiant amgylcheddol newydd amharu ar swyddogaethau cyrff presennol na'u dyblygu;
  - byddai angen i unrhyw gorff newydd fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru gyda'r Senedd yn gwneud unrhyw benodiadau;

- byddai angen sicrhau cyllideb y corff dros gyfnod estynedig, yn debyg i'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru;
- dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio perfformiad y corff.

12. Yn ogystal, datblygodd y Grŵp Gorchwyl set o nodweddion sy'n cynrychioli llywodraethiant da ar gyfer asesu ffurf y corff newydd yn y dyfodol, sef:

- Annibyniaeth;
- Y gallu i gyflawni swyddogaethau lluosog;
- Cydweddu â seilwaith presennol;
- A oes angen deddfwriaeth i fwrw ymlaen;
- Gweithrediad/olrhain o ddechrau'r broses i'r diwedd;
- Cyfalaf gwleidyddol digonol
- Cyrhaeddiad a gweithrediad
- Arbenigedd;
- Effeithiolrwydd (nid yw'n cael ei asesu yn y cam hwn).

Rydym wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno'r polisi hwn yn erbyn meini prawf cyfunol y swyddogaethau sydd i'w cynnal, canfyddiadau ymgynghoriad blaenorol a'r nodweddion llywodraethiant da a nodwyd gan y grŵp gorchwyl.

## **Arfarnu Opsiynau**

### ***Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer***

13. Byddai dull gweithredu "Busnes fel Arfer" yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â rhoi mesurau ar waith i ddisodli rôl Comisiwn yr UE ym maes llywodraethiant amgylcheddol. Yn hytrach, byddai'n dibynnu ar ddeddfwriaeth Cymru a chyrrff goruchwyllo a rheoleiddio presennol i sicrhau bod Cymru yn parhau i ddiogelu'r amgylchedd i lefel uchel.

14. Roedd papur ymgynghori 2019 yn cynnwys trosolwg o'r mesurau presennol yng Nghymru ac yn cynghori y byddai deddfwriaeth sylfaenol ddomestig yn parhau ar ôl ymadael â'r UE, gan olygu nad yw'r bylchau yng Nghymru yr un fath â'r bylchau yng ngweinyddiaethau eraill y DU. Yn ogystal, mae deddfwriaeth wedi'i phasio sydd wedi diwygio'n sylweddol y cyrrff sy'n gyfrifol am helpu i weithredu deddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru. Mae gan Gymru gyfres o egwyddorion amgylcheddol a set wahanol o gyrrff, felly mae ganddi fframwaith deddfwriaethol eisoes ar waith y gellir adeiladu arno.

15. Yng Nghymru, mae'r fframwaith llywodraethiant presennol eisoes yn cynnwys:

- Amcanion hirdymor ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol er mwyn cyfrannu at ffyniant hirdymor Cymru a'i phobl – gan gynnwys saith nod llesiant;
- Gosod ein hadnoddau naturiol yng nghyd-destun ehangach cyfrannu at y saith nod llesiant;
- Dull integredig o reoli adnoddau naturiol, sy'n cydnabod bod ein hadnoddau naturiol yn sylfaen i'n heconomi a'n cymdeithas;

- Fframwaith ailadroddol i gyflawni'r amcanion hirdymor gan gynnwys sylfaen dystiolaeth, polisi strategol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd;
- Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i gyfrannu at yr amcanion a'u cyflawni;
- Set o egwyddorion i lywio'r gwaith o gyflawni'r amcanion a'u hintegreiddio wrth lunio a chyflwyno polisiau – mae hyn yn cynnwys 5 ffordd o weithio (hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio; a chynnwys) a set o egwyddorion amgylcheddol i gynorthwyo'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gofyniad i Gyrrff Cyhoeddus gyfrannu at yr amcanion hirdymor, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae eisoes gennym strwythurau sydd wedi ennill eu plwyf i ddal cyrff cyhoeddus i gyfrif, yn enwedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y cyrff hyn yn parhau i weithredu ar ôl i ni ymadael â'r UE.

16. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi ystyriaeth i barhad rôl IEPAW mewn perthynas â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Serch hynny, cydnabyddir bod ei gylch gwaith a'i bwerau yn llai eang na'r trefniadau a oedd yn bodoli o'r blaen o dan fframwaith llywodraethiant amgylcheddol yr UE. Yn benodol, nid oes gan yr IEPAW bwerau ymchwilio a gorfodi statudol i fynd i'r afael â chwynion am gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol.

### **Costau**

17. Ni fyddai unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o ddewis opsiwn 1, er y disgwylir y byddai'r £600,000 y flwyddyn o gostau sy'n gysylltiedig â'r IEPAW yn parhau yn yr hirdymor.

### **Manteision / Risgiau**

18. Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o fanteision a risgiau'r opsiwn Busnes fel Arfer.

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
✓ <b>Dim goblygiadau cost</b>	✗ Bydd gan Gymru lai o oruchwyliaeth dros lywodraethiant amgylcheddol na gweddill y DU;
✓ <b>Dim angen gweithredu</b>	
✓ <b>Wedi'i sefydlu'n barod</b>	✗ Gallai Llywodraeth y DU ddeddfu ar ran Cymru, gan danseilio datganoli.
✓ <b>Dim pwysau ychwanegol ar adnoddau sector cyhoeddus</b>	✗ Mae'n bosibl na fydd yn bodloni gofynion cytundebau masnach yn y dyfodol

	<ul style="list-style-type: none"> <li>× Rhanddeiliaid yn annhebygol o'i gefnogi</li> <li>× Nid yw'n llenwi'r bwlch llywodraethiant nac yn bodloni ymrwymadau Llywodraeth Cymru</li> </ul>
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## ***Opsion 2 – Rhoi swyddogaethau i gyrff presennol***

19. Ystyriwyd yr opsiynau canlynol fel rhan o'r dadansoddiad i gefnogi ymgynghoriad 2019, ac fe gawsant eu hystyried ymhellach gan y Grŵp Gorchwyl. Nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn credu y byddai unrhyw un o'r gyrff presennol yn gallu ymgymryd â'r mathau o fecanweithiau atebolrwydd sydd eu hangen. Fodd bynnag, roeddent yn cefnogi'r angen i gadw rôl gyrff atebolrwydd presennol yng Nghymru, ac yn cytuno na ddylai unrhyw fesurau llywodraethiant amgylcheddol newydd amharu ar rolau gyrff presennol na'u dyblygu.

20. Mae'r adran hon yn ystyried rhinweddau'r gyrff goruchwylio presennol sydd â'r potensial mwyaf i ddarparu'r lefelau gofynnol o lywodraethiant amgylcheddol.

### ***Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru***

21. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru, ac mae'n annibynnol ar bob corff cyhoeddus. Mae'r Brenin yn penodi'r Ombwdsmon yn dilyn enwebiad gan y Senedd.

22. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru sy'n cael ei rhoi gan Lywodraeth y DU ac sy'n destun craffu gan y Senedd.

23. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau i dderbyn cwynion yn benodol mewn perthynas â niwed yn erbyn unigolion, camweinyddu ac ymddygiad gyrff cyhoeddus. Mae pwerau ymchwilio'r Ombwdsmon yn darparu ar gyfer ymchwilio i gwynion am gamweinyddu mewn perthynas â chamau gweithredu perthnasol, neu fethiannau yn ymwneud â gwasanaeth perthnasol. Wrth ymchwilio i gwynion, mae'r Ombwdsmon yn gallu casglu tystiolaeth, ac mae ganddo ddyletswydd i adrodd pan ddaw ymchwiliad i ben.

24. Mae pwerau gorfodi yn cael eu cyflwyno trwy adroddiad ffurfiol y gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyflwyno mewn achosion o dorri'r cod ymddygiad.

25. Er bod unigolion a sefydliadau yn gallu cwyno am ddarpariaeth awdurdodau amgylcheddol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yw ei waith yn canolbwyntio'n benodol ar faterion amgylcheddol. Byddai'n anodd fframio ei



bwerau ymchwilio er mwyn caniatáu iddo ymchwilio i fethiannau "difrifol" i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

26. O dan y model hwn, byddai gwaith craffu presennol y Senedd ar effeithiolrwydd polisi yn cael ei ehangu trwy ofynion adrodd ychwanegol. Byddai'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried achosion unigol a godir gan y cyhoedd, cyrff anllywodraethol ac eraill.
27. Er y byddai'n bosibl diwygio swyddogaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y gallai ymchwilio i gwynion am gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, byddai'n newid sylfaenol i'w gylch gwaith a'i swyddogaeth. Mae gwaith yr Ombwdsmon yn canolbwyntio ar ymchwilio i achosion o niwed i unigolion oherwydd ymddygiad cyrff cyhoeddus. Ar ben hynny, nid yw'r Ombwdsmon yn cymryd camau gorfodi sylweddol ar hyn o bryd - byddai ychwanegu'r swyddogaeth hon yn newid sylfaenol arall. Yn olaf, gallai ychwanegu cyfrifoldeb sylweddol am lywodraethiant amgylcheddol achosi anghydbwysedd â chyfrifoldebau goruchwylio presennol yr Ombwdsmon. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dylid nodi nad oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn credu ei bod yn briodol iddo ymgymryd â'r swyddogaeth llywodraethiant amgylcheddol.
28. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

### ***Archwilydd Cyffredinol Cymru***

29. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei fod yn archwilio cyfrifon cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, ei chyrff a noddir a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
30. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymwneud yn bennaf ag archwiliadau ac astudiaethau sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd economaidd. Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau, ac mae rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno i'r Senedd.
31. Mae'n gallu cynnal archwiliadau o gyrrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant, a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.
32. Nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru unrhyw broses gwyno gyhoeddus, nid yw'n ymwneud llawer â phrosesau gorfodi cyhoeddus (ac eithrio ym maes llywodraeth leol) a dim ond ychydig iawn, os o gwbl, o'r swyddogaethau llywodraethiant amgylcheddol y byddai'n gallu eu cyflawni. Byddai rhoi swyddogaethau llywodraethiant amgylcheddol newydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn creu newid sylweddol i'w rôl, ei arferion craidd a'r trefniadau deddfwriaethol presennol.
33. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

## ***Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru***

34. Sefydlwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae ganddo ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Penodir y Comisiynydd annibynnol gan Weinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r swydd.
35. Mae dyletswyddau allweddol y Comisiynydd yn cynnwys:-
- Darparu cyngor i gyrrff cyhoeddus, eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant a hyrwyddo arferion gorau;
  - Darparu cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar baratoi eu Cynllun Llesiant Lleol;
  - Gwneud gwaith ymchwil yn ymwneud â'r nodau llesiant, y dangosyddion a'r cerrig milltir cenedlaethol, a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a sut mae cyrrff cyhoeddus yn ei rhoi ar waith;
  - Cynnal adolygiadau o sut mae cyrrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor penderfyniadau, a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau - rhaid i'r corff gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn;
  - Gwneud argymhellion i gorff cyhoeddus am y camau sydd wedi'u cymryd neu'r camau arfaethedig er mwyn gosod a chyflawni amcanion llesiant;
  - Paratoi a chyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd, sy'n cyflwyno asesiad o'r gwelliannau y mae cyrrff cyhoeddus wedi'u gwneud, ac y dylent eu gwneud, mewn perthynas â gosod a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
36. Nid oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bwerau gorfodi.
37. Mae'r Comisiynydd yn derbyn cymorth gan Banel Cynghori sy'n cynnwys Comisiynwyr eraill Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru, cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru, TUC Cymru, ac eraill yn ôl yr angen.
38. Nid oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weithdrefn gwyno ac nid oes ganddo lawer o bwerau gorfodi. Mae'n gallu darparu cyngor, cynnal adolygiadau a chyflawni swyddogaethau adrodd. Gallai rhoi swyddogaethau llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gael effaith ar gydbwysedd ei rôl yn goruchwyllo pileri amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol datblygu cynaliadwy.
39. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

## ***Costau***

40. Nid oes modd diffinio goblygiadau cost clir ar gyfer yr opsiwn hwn gan na fyddai unrhyw gorff unigol yn gallu cyflawni'r holl swyddogaethau gofynnol. O ystyried bod yr holl gyrrff eisoes wedi'u sefydlu, byddai'r costau'n llai na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer corff annibynnol (opsiwn 3), ond gan ei bod yn debygol y byddai angen staffio ychwanegol sylweddol a systemau newydd, mae'n debygol y byddai cost sylweddol i unrhyw sefydliad.

## **Manteision / Risgiau**

41. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau i gyrff presennol sy'n cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio:

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>✓ <b>Llai o oblygiadau cost na sefydlu corff newydd</b></li><li>✓ <b>Mae'r gyrff wedi'u sefydlu eisoes felly gallai swyddogaethau newydd fod yn weithredol yn gyflymach</b></li><li>✓ <b>Lleolir yng Nghymru</b></li><li>✓ <b>Cydnabyddiaeth, gan helpu i hyrwyddo derbynioldeb a statws</b></li><li>✓ <b>Sicrhau bod swyddogaethau Comisiwn yr UE yn cael eu disodli ar lefel ddomestig</b></li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>✗ Dim hyrwyddwr amgylcheddol penodol</li><li>✗ Mae'n bosibl na fydd yn bodloni meini prawf annibyniaeth</li><li>✗ Nid yw'n disodli swyddogaeth orfodi Llys Cyfiawnder yr UE</li><li>✗ Nid oes un corff unigol a allai gyflawni'r holl swyddogaethau angenrheidiol ar hyn o bryd, a gallai hynny arwain at rannu cyfrifoldeb, gan erydu arbenigedd a manteision adnoddau cael un corff i gyflawni'r swyddogaethau</li><li>✗ Byddai'n anodd i'r cyhoedd ddeall y system os oes nifer o gyrff yn cyflawni'r swyddogaethau</li><li>✗ Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio swyddogaethau</li><li>✗ Mae'n drysu ac o bosibl yn gwanhau prif swyddogaethau'r gyrff. Ni chawsant eu sefydlu at y diben hwn.</li><li>✗ Byddai'n anodd i'r cyhoedd ddeall pa gorff sy'n cyflawni swyddogaethau penodol, a pha gorff i gysylltu ag ef os oes ganddynt gwynion/sylwadau</li><li>✗ Gwrthwynebiad gan rai gyrff, nad ydynt yn ystyried ei bod yn</li></ul>

	briodol iddynt gael y swyddogaeth hon.
--	-------------------------------------------

### ***Opsiwn 3 – Sefydlu corff penodedig***

42. Mae'r opsiynau canlynol yn archwilio modelau amrywiol ar gyfer corff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru.

### ***Opsiwn 3a - Model comisiwn sy'n cael ei gyfansoddi fel Corff Cyhoeddus Anadrannol (Yr opsiwn a ffefrir)***

43. Fe wnaeth y Grŵp Gorchwyl argymhell bod angen creu corff llywodraethiant pwrpasol, newydd ar ffurf comisiwn (wedi'i fodelu ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol). Roedd yn argymhell y byddai'r Comisiwn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac y byddai'r Senedd yn gyfrifol am wneud penodiadau. Hefyd, byddai angen cyllideb sicr dros gyfnod estynedig, yn debyg i'r ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.
44. Dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio perfformiad y corff. Roedd y Grŵp Gorchwyl o'r farn fod Comisiwn yn gyfansoddiad priodol gan y byddai'n caniatáu i'r corff fabwysiadu dull gweithredu amlswyddogaethol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo diogelu'r amgylchedd.
45. Roedd y Grŵp Gorchwyl yn argymhell y gallai'r corff gael ei gyfansoddi ar raddfa ac mewn modd sy'n briodol i Gymru, ac y gallai alw ar banel arbenigol i ychwanegu at ei allu i gyflawni ei swyddogaethau. Byddai hyn yn caniatáu i'r Comisiwn weithredu mewn ffordd hyblyg a'i alluogi i fanteisio ar ystod eang o arbenigedd, gan gynnwys arbenigedd cyrff cyhoeddus eraill o bosibl os nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i nodi. Yn ogystal, gellid gofyn am arbenigedd ategol gan asiantaethau'r DU gyda'r syniad y byddai hyn yn gweithio'r ddwy ffordd.
46. Byddai'r rôl a'r swyddogaethau penodol yn amodol ar ddatblygu polisi yn y dyfodol. Byddai angen mesurau gorfodi ychwanegol ar gyfer yr opsiwn hwn hefyd. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

### ***Costau***

47. Mae amcangyfrifon cychwynnol o'r costau ar gyfer sefydlu corff pwrpasol, newydd i Gymru wedi'u gwneud ar sail cyllidebau blynyddol cyrff tebyg yng Nghymru, a'r amcangyfrifon cost a gwblhawyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS). Mae'r amcangyfrifon hyn, tua £2.5m - £3m y flwyddyn, ym mhen 'uchel' y raddfa gostau, ac mae opsiynau eraill wedi cael eu graddio yn briodol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau sefydlu ESS (tua £24,000), er y bydd y costau hyn yn dibynnu ar amgylchiadau penodol ein model.
48. Rydym yn rhagweld y bydd yna gostau gweinyddol i gyrff cyhoeddus oddi mewn i gwmpas y corff llywodraethiant newydd. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen iddynt ddarparu rhagor o dystiolaeth neu wybodaeth ar gais y corff, neu hyd yn oed gymryd camau unioni os yw wedi dod i'r amlwg nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Bydd y costau hyn yn amrywio'n sylweddol ar sail natur y camau sydd eu hangen, ond mae'r [prosiect cyfraith gyhoeddus](#) yn darparu

amcangyfrif bras iawn o gostau adolygiad barnwrol (tua £30,000 yr un). Bydd rhagor o waith dadansoddi yn cael ei wneud drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn er mwyn nodi'r costau gweinyddol yn fanylach.

### **Manteision / Risgiau**

49. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau'r model comisiwn:

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
✓ <b>Statws a chorff penodol sy'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd</b>	x Corff newydd yw'r opsiwn drutaf
✓ <b>Annibynnol ar y Llywodraeth</b>	x Cymhlethdod – bydd angen adnoddau ac amser i'w sefydlu
✓ <b>Sicrhau bod swyddogaethau Comisiwn yr UE yn cael eu disodli ar lefel ddomestig a'u bod yn annibynnol ar gyrff presennol</b>	x Mae'n bosibl na fydd modd darparu sicrwydd cyllidebol yn yr hinsawdd bresennol
✓ <b>Byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ofynion cytundeb masnach</b>	x Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu ei rôl a'i swyddogaethau.
✓ <b>Pwrpasol i Gymru</b>	x Adnoddau ac arbenigedd wedi'u hymestyn ledled y Deyrnas Unedig
✓ <b>Yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau diogelwch amgylcheddol a hawliau dinasyddion</b>	
✓ <b>Un pwynt ffocws i'r cyhoedd a rhyngweithio â chyrff presennol a gweddill y DU</b>	
✓ <b>Cyfle i benodi unigolion ag ystod o sgiliau a phrofiad</b>	

wedi'u teilwra i'r llwyth achos a'r pwnc	
---------------------------------------------	--

### ***Opsiwn 3b - Model Comisiynydd dros yr Amgylchedd***

50. Byddai'r model hwn yn sefydlu Comisiynydd newydd ar gyfer yr Amgylchedd ar sail model Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu'r Comisiynydd Gwybodaeth. Byddai'r Brenin yn penodi unigolyn i swydd y Comisiynydd ar gyngor y Senedd.
51. Er ei fod yn debyg i fodel y Comisiwn, byddai'r model hwn yn rhoi awdurdod i unigolyn yn hytrach na phwyllgor o aelodau i gyflawni dyletswyddau mewn perthynas â'r amgylchedd fel y pennir yn neddfwriaeth Cymru.
52. Mae yna enghreifftiau o Gomisiynwyr Seneddol mewn gwledydd y tu allan i'r UE yn darparu llywodraethiant amgylcheddol, ond yn gyffredinol mae eu rôl wedi'i chyfyngu i roi cyngor i'w Seneddau er mwyn cryfhau effeithiolrwydd gwaith craffu Seneddol ar y weithrediaeth. Mae comisiynydd tebyg i'r Comisiynydd Seneddol dros yr Amgylchedd yn Seland Newydd (PCE) yn adlewyrchu'r hyn y gallai gwlad o faint Cymru ddisgwyl ei weithredu'n rhesymol, yn unol â'r cynsail sydd eisoes wedi'i osod trwy sefydlu Comisiynwyr eraill (Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg, Plant, a Phobl Hŷn) yng Nghymru.
53. Byddai'r rôl a'r swyddogaethau penodol yn amodol ar ddatblygu polisi yn y dyfodol, a gallent fynd y tu hwnt i gylchoedd gwaith comisiynwyr amgylcheddol presennol mewn gwledydd eraill.
54. Byddai angen mesurau gorfodi ychwanegol ar gyfer yr opsiwn hwn hefyd. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

### ***Costau***

55. Mae amcangyfrifon cychwynnol o'r costau ar gyfer sefydlu corff newydd pwrpasol i Gymru wedi'u gwneud ar sail cyllidebau blynyddol cyrff tebyg yng Nghymru, ac amcangyfrifon o gostau a gwblhawyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS). Mae'r amcangyfrifon hyn tua £2.5m - £3m y flwyddyn, ac mae opsiynau eraill wedi cael eu graddio yn briodol.

### ***Manteision / Risgiau***

56. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau'r model comisiynydd:

<b><i>Manteision</i></b>	<b><i>Risgiau</i></b>
✓ <b>Statws a hyrwyddwr amgylcheddol penodol</b>	✗ Corff newydd yw'r opsiwn drutaf
✓ <b>Annibynnol ar y Llywodraeth</b>	✗ Bydd gan y corff ystod eang o gyfrifoldeb a bydd angen arbenigedd ym meysydd polisi a chyfraith amgylcheddol,

<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Sicrhau bod swyddogaethau Comisiwn yr UE yn cael eu cyflawni ar lefel ddomestig a'u bod yn annibynnol ar gyrff presennol</b></li>   <li>✓ <b>Byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ofynion cytundeb masnach</b></li>   <li>✓ <b>Wedi'i addasu'n bwrpasol i anghenion Cymru</b></li>   <li>✓ <b>Yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau diogelwch amgylcheddol a hawliau dinasyddion</b></li>   <li>✓ <b>Un pwynt ffocws i'r cyhoedd a rhyngweithio â chyrrff presennol a gweddill y DU</b></li>   <li>✓ <b>Cyfle i benodi unigolion ag ystod o sgiliau a phrofiad wedi'u teilwra i'r llwyth achos a'r pwnc</b></li> </ul>	<p>prosesau deddfwriaethol, rheoleiddio, prosesau ariannol ac archwilio, ac ymwybyddiaeth wleidyddol. Nid yw'n ymarferol disgwyl i un comisiwn feddu ar yr holl arbenigedd hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✗ Ar sail modelau sydd eisoes yn bodoli mewn gwledydd eraill, mae'n bosibl na fydd y corff yn gallu cyflawni'r holl swyddogaethau.</li>   <li>✗ Cymhlethdod – bydd angen llawer o adnoddau ac amser i'w sefydlu</li>   <li>✗ Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu ei rôl a'i swyddogaethau.</li>   <li>✗ Adnoddau ac arbenigedd wedi'u hymestyn ledled y Deyrnas Unedig</li> </ul>
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

### ***Opsiwn 3c - Model Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru***

57. Mae Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddisgrifio fel "corff sydd â rôl ym mhroses llywodraeth genedlaethol ond nad yw'n adran o'r llywodraeth nac yn rhan o un, ac sydd, yn unol â hynny, yn gweithredu i raddau mwy neu lai fel sefydliad hyd braich o Weinidogion Cymru".

58. Fel arfer, mae Cyrff Gweithredol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu sefydlu o dan statud, er bod nifer fach wedi cael eu sefydlu drwy Warant Frenhinol neu Siarter Frenhinol. Nid ydynt yn rhan o'r Goron ond mae ganddynt eu natur gyfreithiol eu hunain.



59. Maent yn cyflawni ystod eang o swyddogaethau gweinyddol, masnachol, gweithredol a rheoliadol neu dechnegol y credir ei bod yn well eu cyflawni hyd braich o Lywodraeth Cymru.
60. Mae graddau eu hymreolaeth neu eu hannibyniaeth ar Weinidogion Cymru yn amrywio, ond mae pob un yn gweithredu mewn fframwaith strategol sy'n cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru.
61. Trwy eu swyddog cyfrifyddu, maent yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd a Senedd y DU, er mai Gweinidogion sy'n atebol yn y pen draw am eu perfformiad a'u bodolaeth barhaus.
62. Maent yn cael eu harwain gan fyrddau (*neu ddeiliad swydd weithiau*) sy'n cael eu penodi gan Weinidogion. Gall rhai aelodau fod yn Benodiadau'r Goron ar gyngor Gweinidogion, neu gall y corff ei hun wneud penodiadau.
63. Nid yw'r staff yn weision sifil, ac maent yn cael eu cyflogi gan y corff ei hun.
64. Maent yn llunio eu cyfrifon a'u hadroddiad blynyddol eu hunain, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol yn y rhan fwyaf o achosion.
65. Mae cyllid yn cael ei ddarparu trwy grant neu, yn fwy cyffredin, cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, ond gall rhai greu incwm ychwanegol trwy ffynonellau eraill.
66. Mae penodiadau i fyrddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac yn cael eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethu.
67. O ystyried yr angen i ddangos bod mesurau llywodraethiant amgylcheddol yn annibynnol, mae'r model hwn yn debygol o fod yn agored i her.
68. Byddai angen mesurau gorfodi ychwanegol ar gyfer yr opsiwn hwn hefyd. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sefydlu'r model hwn.

### **Costau**

69. Mae amcangyfrifon cychwynnol o'r costau ar gyfer sefydlu corff newydd pwrpasol i Gymru wedi'u gwneud ar sail cyllidebau blynyddol cyrff tebyg yng Nghymru, ac amcangyfrifon o gostau a gwblhawyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS). Mae'r amcangyfrifon hyn, tua £2.5m - £3m y flwyddyn, ym mhen 'uchel' y raddfa gostau, ac mae opsiynau eraill wedi cael eu graddio yn briodol.
70. Nid oedd yn bosibl cael gwybodaeth wedi'i chadarnhau gan Defra am gostau posibl sefydlu a rhedeg Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, ond rydym yn deall mai tua £14m yw cyfanswm costau'r rhaglen.

### **Manteision / Risgiau**

71. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau'r model Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru:

<b><i>Manteision</i></b>	<b><i>Risgiau</i></b>
✓ <b>Statws a chorff diogelu'r amgylchedd penodol</b>	✗ Corff newydd yw'r opsiwn drutaf
✓ <b>Gallai gyflawni nifer o swyddogaethau</b>	✗ Gallai arwain at ddryswch â rôl CNC
✓ <b>Sicrhau bod swyddogaethau Comisiwn yr UE yn cael eu disodli ar lefel ddomestig a'u bod yn annibynnol ar gyrff presennol</b>	✗ Gellid barnu nad yw'r corff yn ddigon annibynnol
✓ <b>Byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ofynion cytundeb masnach</b>	✗ Diffyg didueddrwydd ymddangosiadol mewn dyletswyddau cyngori
✓ <b>Wedi'i addasu'n bwrpasol i anghenion Cymru</b>	✗ Cymhlethdod – bydd angen llawer o adnoddau ac amser i'w sefydlu
✓ <b>Yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau mesurau diogelu'r amgylchedd a hawliau dinasyddion</b>	✗ Nid yw'n disodli swyddogaeth gwneud penderfyniadau a gorfodi Llys Cyfiawnder yr EU
✓ <b>Un pwynt ffocws i'r cyhoedd a chyrrff eraill/gweddill y DU</b>	✗ Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu ei rôl a'i swyddogaethau
✓ <b>Cyfle i benodi unigolion ag ystod o sgiliau a phrofiad wedi'u teilwra i'r llwyth achos a'r pwnc</b>	✗ Adnoddau ac arbenigedd wedi'u hymestyn ledled y Deyrnas Unedig

## **Opsiwn 4 – Gofyn i Lywodraeth y DU ymestyn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru**

72. Mae'r adran hon yn ystyried ymestyn y dull gweithredu yn Neddf yr Amgylchedd 2021 i Gymru. Byddai hyn yn golygu ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a'r mecanwaith adolygu amgylcheddol i Gymru. Mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Llywodraeth ac mae ganddo gyllideb sicr.
73. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn sefydlu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i graffu ar bolisiau a chyfraith amgylcheddol, ymchwilio i gwynion a chymryd camau gorfodi yn erbyn awdurdodau cyhoeddus os oes angen, trwy fecanwaith adolygiad amgylcheddol.
74. O dan yr opsiwn hwn, gellid sefydlu swyddfa yng Nghymru gyda staff sydd â'r wybodaeth i fod yn sylfaen i fframwaith deddfwriaethol Cymru fel cangen o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Gallai ymestyn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd sicrhau bod Cymru yn gallu manteisio ar gronfa fwy o adnoddau ac arbenigedd er mwyn ystyried cwynion. Wrth ymestyn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru, mae'n bosibl y gellir lleihau anawsterau sy'n codi oherwydd materion trawsffiniol. Fodd bynnag, byddai unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau polisi yn cael eu dwysáu gan y byddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn atebol i Lywodraeth y DU a Senedd y DU yn y lle cyntaf.
75. Byddai angen cyflwyno deddfwriaeth newydd yn Senedd y DU i ymestyn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru, a byddai angen diwygiadau gan Lywodraeth y DU i Fil Amgylchedd y DU sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd. Y cynsail ar gyfer hyn yw'r ffaith fod darpariaeth bwrrpasol wedi'i chynnwys i ymestyn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Ogledd Iwerddon.
76. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen cymeradwyaeth y Senedd i Lywodraeth y DU ddeddfu dros Gymru mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Byddai angen trafod ymarferoldeb yr opsiwn hwn gyda Llywodraeth y DU.

### **Cost**

77. Mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cael ei hariannu gan DEFRA, ac mae'n debygol y byddai angen i Lywodraeth Cymru ariannu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yng Nghymru. Mae potensial i arbed costau o'i gymharu â chorff annibynnol yng Nghymru, trwy rannu swyddogaethau cefn swyddfa fel systemau TG ac AD, a thrwy rannu mynediad at arbenigwyr amgylcheddol. Amcangyfrifir mai'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn gyda phedwar aelod staff (yn cynnwys yr holl gostau gweithredol) yn seiliedig ar amcangyfrif o £90,000 - £150,000 fesul swydd gyfwerth ag amser llawn (gan ddibynnu ar radd) yw tua £360,000 - £600,000.

### **Manteision / Risgiau**

78. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o'r manteision a'r risgiau sy'n deillio o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cyflawni swyddogaeth llywodraethiant amgylcheddol i Gymru:

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
✓ <b>Statws a chorff diogelu'r amgylchedd penodol</b>	✗ Byddai'n golygu nad oes corff o Gymru yn gyfrifol am faes diogelu'r amgylchedd sydd wedi'i ddatganoli
✓ <b>Llai o gostau o'i gymharu â chorff annibynnol Cymru</b>	✗ Heriol o safbwynt cyfansoddiadol – gellid ystyried yr opsiwn hwn fel cam yn ôl ar gyfer datganoli
✓ <b>Gallai gyflawni nifer o swyddogaethau</b>	✗ Heriol o safbwynt gwleidyddol – Senedd y DU ac nid Senedd Cymru sy'n atebol yn bennaf am Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd
✓ <b>Sicrhau bod swyddogaethau Comisiwn yr UE yn cael eu disodli ar lefel ddomestig a'u bod yn annibynnol ar gyrff presennol</b>	✗ Datblygwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd fel model i Loegr yn unig ac, ar hyn o bryd, nid yw'n cydnabod y fframwaith deddfwriaethol gwahanol yng Nghymru
✓ <b>Byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw ofynion cytundeb masnach</b>	✗ Pryderon nad yw'r model Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Llywodraeth yn ddigon annibynnol ar Weinidogion
✓ <b>Yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau diogelwch amgylcheddol a hawliau dinasyddion</b>	✗ Ychydig o rym i wrthsefyll gwahaniaethau polisi posibl, er enghraifft dadreoleiddio
✓ <b>Un pwynt ffocws i'r cyhoedd a chyrrff eraill/gweddill y DU</b>	✗ Mae gan Weinidogion Llywodraeth y DU reolaeth ariannol dros graidd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, a gallai hynny effeithio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth pe bai'r cyllid yn cael ei leihau
✓ <b>Cronfa ehangach ar gyfer manteisio ar arbenigedd</b>	
✓ <b>Dim gofyniad am ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru</b>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Amserol</b></li>   <li>✓ <b>Bydd yn helpu i ymchwilio i gwynion trawsffiniol a chwynion yn ymwneud â chymhwysedd a rennir</b></li>   <li>✓ <b>Llai o oblygiadau adnoddau i Lywodraeth Cymru yn yr hirdymor</b></li> </ul>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

## **Casgliad**

79. Mae'r dadansoddiad o opsiynau wedi ystyried amrywiaeth eang o opsiynau a allai gyflawni'r swyddogaethau (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bwch mewn llywodraethiant amgylcheddol a fydd yn digwydd yng Nghymru pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Dyma grynodedb o'r dadansoddiad o'r holl opsiynau.

### ***Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer***

80. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw fesurau newydd yn cael eu rhoi ar waith i ddisodli rôl Comisiwn yr UE ym maes llywodraethiant amgylcheddol, gan ddiybnnu yn hytrach ar gyrff goruchwyllo a rheoleiddio presennol Cymru. Manteision y dull gweithredu hwn yw nad oes angen unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol, ni fydd costau ychwanegol, a bydd goblygiadau o ran adnoddau yn gyfyngedig.

81. Risgiau'r dull gweithredu hwn yw na fyddai trefniadau diogelu'r amgylchedd yng Nghymru mor gadarn â'r trefniadau yng ngwledydd eraill y DU. Hefyd, mae cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU yn cynnwys ymrwymadau na ddylid lleihau lefelau diogelu'r amgylchedd na lefel diogelu'r hinsawdd yn y DU yn is na'r lefelau a oedd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio (gan gynnwys trwy fethu â gorfodi cyfraith amgylcheddol neu lefel diogelu'r hinsawdd yn effeithiol). Gallai peidio ag atgynhyrchu'r trefniadau llywodraethiant a oedd ar waith cyn y cyfnod pontio ymddangos yn gam yn ôl ym maes diogelu'r amgylchedd.

82. Pe bai angen rhoi mesurau llywodraethiant amgylcheddol ar waith ym mhob rhan o'r DU ar gyfer unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol, mae'n debygol na fyddem yn bodloni'r gofynion hynny, gan roi unrhyw gytundebau posibl mewn perygl. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn bodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru na fyddai unrhyw ostyngiad mewn hawliau dinasyddion neu fesurau diogelu'r amgylchedd o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## ***Opsiwn 2 - Defnyddio corff neu gyrff presennol***

83. O dan yr opsiwn hwn, ystyriwyd gwella swyddogaethau cyrff presennol. Rhoddwyd ystyriaeth i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Ystyriwyd opsiwn hybrid hefyd o ddefnyddio'r cyrff i ymdrin â gwahanol swyddogaethau gofynnol, ond fe'i diystyrwyd am fod yn rhy gymhleth ac aneglur.
84. Manteision y dull gweithredu hwn yw y bydd costau'n is gan y byddai'r swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan sefydliadau sy'n bodoli'n barod, byddai arbenigedd eisoes ar gael ar gyfer rhai o'r swyddogaethau, a byddai rhoi'r rôl yn nwylo corff diduedd ac uchel ei barch yn rhoi dilysrwydd iddi.
85. Risgiau'r opsiwn hwn yw na allai unrhyw un o'r cyrff unigol, o dan eu cyfansoddiad presennol, gyflawni'r holl swyddogaethau gofynnol, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ym mhob achos i ychwanegu'r swyddogaethau ychwanegol, a byddai ychwanegu'r swyddogaeth llywodraethiant amgylcheddol yn anghyson â rôl graidd y corff neu'n ystumio'r rôl honno. Hefyd, byddai'n fwy anodd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach wybod pa gorff sy'n gyfrifol am swyddogaethau penodol.

## ***Opsiwn 3 – Sefydlu corff newydd i Gymru (Opsiwn a ffefrir)***

86. O dan yr opsiwn hwn, byddai corff llywodraethiant amgylcheddol newydd yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Dyma'r opsiwn a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a dyma oedd sail argymhellion y Grŵp Gorchwyl.
87. Er bod y Grŵp Gorchwyl yn ffafrio model comisiwn, tebyg i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, nid oedd ei adroddiad yn nodi'n glir pam ei fod yn argymhell yr opsiwn hwn, felly fe wnaeth yr arfarniad o opsiynau ystyried nifer o fodolau, gan gynnwys y model comisiwn a ffefrir, yn ogystal â model comisiynydd a model Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. At ei gilydd, credir mai'r argymhelliad model comisiwn (neu gorff hyd braich) yw'r mwyaf priodol gan y bydd yn darparu'r lefel angenrheidiol o uwch arbenigedd mewn llawer o feysydd pwnc, a fydd yn hanfodol wrth gyflawni'r amcanion polisi arfaethedig.
88. Manteision y dull gweithredu hwn yw'r ffaith fod sefydlu corff pwrpasol yn arwydd cadarn o ymrwymiad i ddiogelu'r amgylchedd, a hwn yw'r model agosaf at drefniadau presennol yr UE. Byddai'r model yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i beidio â gwanhau hawliau dinasyddion neu fesurau diogelu'r amgylchedd, a bydd y model yn bodloni gofynion Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE.
89. Risg y dull gweithredu hwn yw'r ffaith fod angen adnoddau staffio sylweddol i'w gyflwyno. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol, a hwn yw'r opsiwn drutaf, sef £2.5m - £3m y flwyddyn.

#### ***Opsiwn 4 - Defnyddio Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd***

90. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddiwygio Bil Amgylchedd y DU er mwyn ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru.
91. Manteision y dull gweithredu hwn yw'r ffaith ei fod yn darparu cyfle deddfwriaethol amserol, bydd llai o gostau o'i gymharu â sefydlu corff annibynnol, ac mae'r dull yn darparu ar gyfer y rhan fwyaf o'r meini prawf dymunol a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl. Hefyd, byddai'n hwyluso'r broses o ymchwilio i achosion ar draws ffiniau ac achosion lle mae cymhwysedd wedi'i rannu.
92. Risgiau'r dull gweithredu hwn yw'r ffaith y byddai'n golygu bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer Cymru mewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ac y byddai'n golygu bod Llywodraeth y DU yn rheoli maes polisi sydd â blaenoriaeth uchel.

#### ***Cyllid a Fforddiadwyedd***

93. Mae cost gweithredu corff newydd wedi'i hamcangyfrif trwy ddefnyddio dull dadansoddi cymharol yn seiliedig ar gostau gweithredu cyrff annibynnol tebyg. Mae rhagor o waith manwl yn mynd rhagddo i ddatblygu lefel derfynol y gyllideb gan ystyried faint o staff a fydd eu hangen a chostau eraill.
94. Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer yw'r opsiwn rhataf ond nid yw'n mynd i'r afael â'r bylchau llywodraethiant amgylcheddol.
95. Opsiwn 2 – nid oedd modd mesur cost defnyddio cyrff presennol gan na allai un corff gyflawni'r holl swyddogaethau gofynnol. Byddai angen staffio arbenigedd a systemau ychwanegol, felly byddai'n ddrutach nag Opsiwn 1 ond yn rhatach nag Opsiwn 3. Heb amserlen glir i gyflwyno deddfwriaeth, nid yw'n glir pryd y bydd y costau'n codi.
96. Opsiwn 3 – sefydlu corff newydd fyddai'r opsiwn mwyaf costus a byddai angen rhwng £2.5m a £3m o gyllid ar sail cyllidebau cyrff tebyg fel swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcangyfrif o gostau corff llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig yr Alban, Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS). Heb amserlen glir i gyflwyno deddfwriaeth, nid yw'n glir pryd y bydd y costau'n codi.
97. Opsiwn 4 – Amcangyfrifir y byddai ariannu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i gyflawni'r rôl hon yng Nghymru yn costio tua £360,000 - £600,000.

# Rhan C Targedau Bioamrywiaeth

## Cyflwyniad

1. Mae ein Dadansoddiad Cost a Budd yn canolbwyntio ar oblygiadau economaidd cyrraedd y targedau "30x30" yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF). Mabwysiadwyd y GBF yn ystod pymthegfed cyfarfod Cynhadledd y Partion (COP 15), ac mae'n gosod nodau uchelgeisiol ar gyfer 2050 a thargedau ar gyfer 2030, gyda'r nod o sicrhau bod y byd yn byw mewn cytgord â byd natur erbyn 2050. Mae'r fframwaith hwn yn pwysleisio pwysigrwydd mecanweithiau statudol cadarn ar gyfer monitro, adrodd ac atebolrwydd ym maes cadwraeth bioamrywiaeth (Conference of the Parties to the Convention on Biological Diversity, 2022).
2. Mae ein dadansoddiad yn gwerthuso tri phrif opsiwn: cadw'r mesurau presennol (Opsiwn 1 – "Busnes fel Arfer"), cyflwyno mesurau anneddfwriaethol newydd (Opsiwn 2) neu gyflwyno fframwaith statudol cadarn (Opsiwn 3). Mae'r opsiwn olaf, sy'n cyd-fynd â'r GBF, yn cael ei ffafrio oherwydd natur brys yr Argyfwng Natur yng Nghymru.
3. Nid yw'r targedau ar gyfer opsiwn 3 wedi'u darparu'n llawn eto, felly nid yw'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer gwaith cyfrifo ariannol mwy manwl gywir ar gael, ac felly mae model tebyg i'r un a amlinellir gan Defra ([The Environment Act – Terrestrial Biodiversity Targets Impact Assessment](#)) yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar hyn o bryd (amlinellir y fethodoleg yn Atodiad A). Fel rhan o'r broses i nodi rhagor o dargedau yng Nghymru, bydd cymhariaeth fwy cywir â model DEFRA ar sail cynefin yn cael ei chwblhau, gyda'r nod o gynnal dadansoddiad cost a budd llawn o bob cam gweithredu sydd ei angen i gyflawni'r targedau a awgrymir.
4. Gan ddefnyddio dadansoddiad Defra, mae'r effaith economaidd yng Nghymru wedi'i hamcangyfrif gan ddefnyddio dau ddull cymharu: cymharu yn ôl poblogaeth ac yn ôl ardal, gan gynnwys cyfanswm yr ardaloedd tir, morol, ac arfordirol a gwmpesir yn y targedau. Mae'r gymhariaeth poblogaeth yn defnyddio hafaliad Barnett ar gyfer addasu gwariant cyfrannol.
5. Mae'r broses o gyfrifo'r Gwerth Presennol Net (NPV) ar gyfer pob opsiwn wedi'i hamlinellu fel a ganlyn:
  - Pennu gwerth cost/budd blynyddol Lloegr.
  - Lluosi'r gwerth hwn â nifer y blynyddoedd perthnasol.
  - Canfod y gyfradd ddisgownt briodol.
  - Cyfrifo'r gwerth presennol ar gyfer pob cost/budd.
  - Addasu ystod cost/budd Lloegr i'r ystod gyfatebol i Gymru, gan ddefnyddio hafaliad Barnett a chymariaethau ardaloedd ecosystem.
  - Cyfrifo'r NPV trwy dynnu cyfanswm costau Cymru o fuddion.
6. Mae'r dull hwn yn rhoi cipolwg clir o'r sefyllfa bresennol a rhagamcanion y dyfodol. Yn bwysig, mae'n cyd-fynd â'r galwadau brys gan arbenigwyr am



gamau pendant i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Mae ymdrechion cadwraeth llwyddiannus, fel y rhai ar gyfer ystumod a gloynnod byw, yn dangos y potensial ar gyfer adferiad trwy roi camau gweithredu wedi'u targedu ar waith. Yn ogystal, mae cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer diogelu ac adfer byd natur yng Nghymru yn pwysleisio'r angen i lunio polisiau uchelgeisiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth (CNC, 2020).

## Opsionau

### **Opsion 1**

#### **1 - Busnes fel Arfer**

- O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw gamau ychwanegol yn cael eu cymryd i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru. Byddai hyn yn golygu bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru yn parhau i fod mewn perygl o ddiflannu. Hefyd, ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu bresennol sef "gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth."

### **Manteision / Risgiau**

- Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau Opsiwn 1:

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Fframwaith Sefydledig:</b> Yn defnyddio fframwaith deddfwriaethol sydd eisoes wedi'i sefydlu, sy'n golygu nad oes angen ailddyfeisio'r olwyn neu ymgymryd â'r broses ddeddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd.</li> <li>✓ <b>Dim cost i'r pwrs cyhoeddus.</b></li> <li>✓ <b>Hyblygrwydd:</b> Heb bennu camau gweithredu nawr, byddai gennym hyblygrwydd i ymateb pe bai'r sefyllfa'n newid.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✗ Cyflwr bioamrywiaeth yn gwaethygu: Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn dangos sefyllfa wael bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys gostyngiad sylweddol mewn rhywogaethau a chynefinoedd. Byddai parhau â'r dulliau gweithredu presennol yn debygol o olygu bod y tueddiadau hyn yn parhau, gan arwain at ecosystemau naturiol yn dirywio ymhellach (CNC, 2020).</li> <li>✗ Aneffeithlonrwydd posibl: Mae'n bosibl na fydd y mecanweithiau presennol yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r aneffeithlonrwydd neu'r bylchau presennol yn y</li> </ul>

	<p>system yn effeithiol. Mae'r dirywiad parhaus mewn bywyd gwyllt, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, yn dangos cyfyngiadau dulliau gweithredu presennol (CNC, 2020).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✘ Llai o frys: Gallai'r diffyg camau gweithredu clir leihau'r brys neu'r cymhelliant i adfer bioamrywiaeth. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ystyried canfyddiadau fel y gostyngiad o 52% yn nifer y gloÿnnod byw ers 1976, sy'n dangos ein bod yn colli bioamrywiaeth yn gyflym (CNC, 2020).</li> <li>✘ Gwendidau Hysbys: Mae gan y system bresennol wendidau hysbys, fel monitro annigonol, ac mae'n bosibl na fydd modd mynd i'r afael â'r gwendidau yn ddigonol heb fecanweithiau newydd. Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn nodi'r dirywiad mewn rhywogaethau eiconig fel gwiwerod coch a llygod y dŵr, gan danlinellu'r angen am strategaethau cadwraeth mwy effeithiol (CNC, 2020).</li> </ul>
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

### ***Opsiwn 2 – Mesurau anneddfwriaethol:***

9. Mae gennym fframwaith deddfwriaethol gyda'r gorau yn y byd a byddwn yn parhau i'w ddefnyddio fel sylfaen i'n hymateb i'r argyfwng natur.
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: yn gosod nodau llesiant, dangosyddion cenedlaethol, a cherrig milltir.

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: yn rhoi proses statudol fodern ar waith er mwyn cynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig a chynaliadwy.
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015: yn gwella'r broses gynllunio bresennol er mwyn sicrhau bod y datblygiad cywir wedi'i leoli yn y lle cywir.

10. Bydd elfennau penodol yn cynnwys:

- Diweddarau ein polisi Adnoddau Naturiol i ystyried tystiolaeth newydd a gafodd ei darparu trwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru 2020 a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang er mwyn cryfhau ein dull rheoli ar lefel yr ecosystem, yn enwedig wrth fynd i'r afael â rhai o sbardunau ehangach colli bioamrywiaeth.
- Diweddarau ein cynllun gweithredu ar adfer natur.
- Dangosyddion Cenedlaethol: defnyddio'r dangosyddion hyn yn well er mwyn darparu tystiolaeth o gynnydd lle bo hynny'n bosibl.
- Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: rhoi argymhellion a chynllun gweithredu ar waith. Un o'r argymhellion allweddol yw monitro targed 3 yn well, er enghraifft, gan fod hwn yn wendid hysbys yn y system bresennol.

11. Yng nghyd-destun yr elfen dadansoddiad cost a budd, nod yr opsiwn hwn yw mesur yr agweddau ariannol sy'n gysylltiedig â chynlluniau grant a chymorthdaliadau presennol, fel y Gronfa Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â chyllidebau penodol ar gyfer bioamrywiaeth a bioamrywiaeth forol. Bydd yr ymdrech hon yn ein galluogi i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer deinameg cost a budd y polisïau presennol a nodwyd uchod. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein helpu i ddangos yn drylwyr y gwerth ychwanegol sy'n deillio o gyflwyno polisïau bioamrywiaeth penodol.

12. Mae'r broses hon yn gofyn llawer o amser ac ymdrech, felly mae'n parhau i ddatblygu. Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio cost Rhywogaethau Estron Goresgynnol i gymdeithas fel astudiaeth achos i ddangos pam nad yw opsiwn 2 yn hyfyw fel yr amlinellir yn yr astudiaeth gan Eschen et al. (2023) (Eschen, et al., 2023)

### ***Manteision / Risgiau***

98. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau Opsiwn 1:

<b><i>Manteision</i></b>	<b><i>Risgiau</i></b>
<p>✓ <b>Fframwaith Sefydledig: Yn defnyddio fframwaith deddfwriaethol sydd eisoes wedi'i sefydlu, sy'n golygu nad oes angen ailddyfeisio'r olwyn neu ymgymryd â'r broses</b></p>	<p>✗ <b>Diffyg Atebolrwydd: Heb dargedau statudol, mae llai o atebolrwydd ar gyfer cyflawni nodau bioamrywiaeth. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, lle mae adnoddau'n gyfyngedig, gallai absenoldeb mandadau</b></p>

**deddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd.**

- ✓ **Cost-effeithiol yn y Tymor Byr: Gall fod yn fwy cost-effeithiol yn y tymor byr gan ei fod yn dibynnu ar fecanweithiau sy'n bodoli eisoes ac nad oes angen sefydlu cyrff goruchwyllo na mecanweithiau adrodd newydd.**
- ✓ **Hyblygrwydd: Heb dargedau statudol, mae'n bosibl y bydd mwy o hyblygrwydd wrth addasu a newid polisïau wrth i dystiolaeth neu sefyllfaoedd newydd godi.**
- ✓ **Cysondeb: Mae'n darparu dull cyson o reoli bioamrywiaeth, gan ei fod yn parhau i ddefnyddio'r system bresennol.**

cyfreithiol arwain at ailddyrrannu arian oddi wrth fioamrywiaeth, gan waethygu'r argyfwng.

- × Aneffeithlonrwydd posibl: Mae'n bosibl na fydd y mecanweithiau presennol yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r aneffeithlonrwydd neu'r bylchau presennol yn y system yn effeithiol. Mae'r dirywiad parhaus mewn bywyd gwyllt, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, yn dangos cyfyngiadau dulliau gweithredu presennol (CNC, 2020).
- × Llai o frys: Gallai'r diffyg targedau cyfreithiol leihau'r gweithgarwch brys neu'r cymhelliant i gyflawni nodau bioamrywiaeth mewn modd amserol. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ystyried canfyddiadau fel y gostyngiad o 52% yn nifer y gloÿnnod byw ers 1976, sy'n dangos cyflymder colli bioamrywiaeth (CNC, 2020).
- × Gwendidau Hysbys: Mae gan y system bresennol wendidau hysbys, fel monitro annigonol, ac mae'n bosibl na fydd modd mynd i'r afael â nhw yn ddigonol heb fecanweithiau newydd. Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn nodi'r dirywiad mewn rhywogaethau eiconig fel gwiwerod coch a llygod y dŵr, gan danlinellu'r angen am strategaethau cadwraeth mwy effeithiol (CNC, 2020).
- × Cyflwr bioamrywiaeth yn gwaethygu: Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn dangos

	<p>sefyllfa wael bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys gostyngiad sylweddol mewn rhywogaethau a chynefinoedd. Byddai parhau â'r dulliau gweithredu presennol yn debygol o olygu bod y tueddiadau hyn yn parhau, gan arwain at ecosystemau naturiol yn dirywio ymhellach (CNC, 2020).</p>
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

### ***Opsiwn 3: Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth Statudol***

13. Bydd yr opsiwn hwn yn datblygu'r holl agweddau a amlinellir yn Opsiwn 2 ond hefyd yn cynnwys yr elfen ychwanegol o osod targedau bioamrywiaeth statudol i gryfhau gwaith monitro ac adrodd yn ogystal â chyflwyno dyletswydd i weithredu, monitro ac adrodd yn erbyn y targedau hyn.
14. Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod er bod y polisiau hyn wedi bod ar waith eisoes, nid oes unrhyw dystiolaeth eu bod wedi arafu'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Cyflwyno mecanweithiau sy'n rhwymo mewn cyfraith gyda phrosesau adrodd priodol a rheolaidd i'r Senedd er mwyn cynyddu gwaith craffu.
15. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cyflwyno swyddogaeth oruchwylio ar gyfer y corff llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig.
16. At ddibenion y dadansoddiad cost a budd hwn, bydd y targedau a amlinellir yn adroddiad Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022) yn cael eu defnyddio fel procsi ar gyfer targedau bioamrywiaeth Cymru (nad ydynt wedi'u gosod eto).

### ***Targedau Lloegr – Asesiad Effaith Defra***

17. Mae Llywodraeth y DU, o dan fandad Deddf yr Amgylchedd, yn bwriadu sefydlu targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith. Mae'r ddeddf hon yn nodi bod angen o leiaf un targed bioamrywiaeth hirdymor a nod ar gyfer toreithrwydd rhywogaethau penodol erbyn 2030. Mae'r targedau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau gweithredu parhaus ac eglurder parhaol, a byddant o fudd i'r economi, iechyd y cyhoedd, llesiant a gwasanaethau ecosystem hanfodol.
18. Y nod yw sicrhau bod yr amcanion yn ategu ei gilydd, gan feithrin cynnydd ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Atgyfnerthir y weledigaeth hon gan ddarpariaethau eraill yn Neddf yr Amgylchedd, sy'n mynd i'r afael â materion fel ansawdd aer a dŵr gwael sy'n cyfrannu at golli bioamrywiaeth. Yn ogystal â chreu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau amrywiol, mae'r targedau yn

cynnwys buddion ehangach fel rheoli llifogydd, atafaelu carbon, a pheillio, gan wella llesiant pobl yn gyffredinol.

19. Gan gydnabod heriau cysylltiedig newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, mae'r llywodraeth yn pwysleisio atebion sy'n seiliedig ar natur a buddsoddi mewn cynefinoedd. Mae iechyd ecosystem yn cael ei adlewyrchu mewn toreithrwydd rhywogaethau, gan danlinellu'r angen am gynefinoedd eang a chysylltiedig.
20. Yr uchelgais gyffredinol yw creu ecosystem wydn sy'n gallu gwrthsefyll heriau fel newid yn yr hinsawdd, gan sicrhau llwybr cynaliadwy i adfer rhywogaethau ac adfer byd natur yn gyffredinol. Mae angen sicrhau bod y targedau eu hunain yn dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Nod targedau arfaethedig y Llywodraeth yw:
  - Atal y gostyngiad yn nhrefnwydd rhywogaethau erbyn 2030.
  - Cynyddu toreithrwydd rhywogaethau o leiaf 10% erbyn 2042 o'i gymharu â 2030.
  - Gwella Mynegai Rhestr Goch Prydain ar lefel Lloegr yn ymwneud â risg diflaniad rhywogaethau erbyn 2042 o'i gymharu â 2022.
  - Datblygu neu adfywio dros 500,000 hectar o gynefinoedd llawn bywyd gwyllt y tu allan i ardaloedd gwarchoddedig erbyn 2042 o'i gymharu â lefelau 2022.
21. Mae'r amcanion hyn yn cael eu dosbarthu ymhellach i ddwy gyfres o dargedau:

**Targedau Toreithrwydd a Diflaniad Rhywogaethau** – Mae Cynllun yr Amgylchedd 25 Mlynedd Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar ddiogelu ac adfer rhywogaethau anifeiliaid, planhigion a ffyngau allweddol, gyda'r nod o atal diflaniadau sy'n cael eu hachosi gan bobl. Nod y targedau hyn yw sbarduno cefnogaeth y cyhoedd i adfer bioamrywiaeth, gan bwysleisio bod ei harwyddocâd yn ymestyn y tu hwnt i rywogaethau unigol. Mae'r targedau yn hyrwyddo ymgysylltiad a buddsoddiad amgylcheddol ehangach gan randdeiliaid amrywiol, sydd o fudd i gymdeithas a'r economi. Mae'r targedau yn cynnwys:

- Atal y gostyngiad yn nhrefnwydd rhywogaethau erbyn 2030.
- Cynyddu toreithrwydd rhywogaethau o leiaf 10% erbyn 2042 o'i gymharu â 2030.
- Gwella Mynegai Rhestr Goch Prydain yn ymwneud â risg diflaniad rhywogaethau erbyn 2042 o'i gymharu â lefelau 2022.

**Targed Cynefin Ehangach** – Mae targed cynefin ehangach y llywodraeth yn canolbwyntio ar adfer ardaloedd y tu allan i barthau gwarchoddedig. Mae adfer yn dynodi cynnydd, ac mae data'n awgrymu bod adnewyddu cynefinoedd yn helpu i adfer natur. Mae llawer o gynefinoedd wedi'u darnio ac mewn cyflwr gwael, ac maen nhw'n rhy fach ar gyfer rhywogaethau amrywiol yn aml. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd y llywodraeth yn ceisio creu neu adfer 500,000 hectar o gynefinoedd, gan gyfrannu at Rwydwaith Adfer Natur. Mae hyn yn ategu nod rhywogaethau

2030, gydag uchelgais i ragori ar y targed i adfer 500,000 hectar er mwyn gwella prosesau adfer natur. Mae'r targed yn cael ei ddiffinio fel hyn:

- Y targed sydd wedi'i osod yw creu neu adfer 500,000 hectar o gynefinoedd llawn bywyd gwylt y tu allan i barthau gwarchoddedig erbyn 2042 o'i gymharu â 2022.

### **Manteision / Risgiau**

99. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o fanteision a risgiau Opsiwn 3:

<b>Manteision</b>	<b>Risgiau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓ <b>Mwy o Atebolrwydd:</b> Gall cyflwyno targedau statudol arwain at fwy o atebolrwydd a chyfeiriad clir ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth.</li> <li>✓ <b>Adrodd yn Rheolaidd:</b> Gall mecanweithiau sy'n rhwymo mewn cyfraith gydag adroddiadau rheolaidd sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso yn gyson.</li> <li>✓ <b>Mynd i'r afael â Dirywiad:</b> Mae'n cydnabod y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth ac yn cyflwyno mecanweithiau i fynd i'r afael â'r duedd hon yn weithredol.</li> <li>✓ <b>Goruchwyliaeth:</b> Gall cyflwyno swyddogaeth oruchwyllo sicrhau bod polisiau a chamau gweithredu yn cael eu cyflwyno'n effeithiol a'u bod yn gallu darparu arweiniad neu gywiriadau yn ôl yr angen.</li> <li>✓ <b>Mwy o Graffu:</b> Gall adrodd yn rheolaidd i'r Senedd arwain at fwy o graffu ac ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o faterion bioamrywiaeth.</li> <li>✓ <b>Cysondeb Polisi:</b> Bydd mabwysiadu'r opsiwn hwn yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>✗ <b>Costau Gweithredu:</b> Gallai'r broses o gyflwyno targedau statudol a chyrrff goruchwyllo newydd arwain at gostau cynyddol i'w sefydlu a'u cynnal.</li> <li>✗ <b>Anhyblygrwydd Posibl:</b> Gallai targedau cyfreithiol ei gwneud hi'n anoddach addasu polisiau'n gyflym mewn ymateb i dystiolaeth newydd neu amgylchiadau sy'n newid.</li> <li>✗ <b>Oedi Deddfwriaethol:</b> Gall y broses o gyflwyno a phasio deddfau newydd gymryd llawer o amser.</li> <li>✗ <b>Mwy o Fiwrocratiaeth:</b> Gall cyflwyno dulliau adrodd a monitro newydd arwain at fwy o fiwrocratiaeth, a allai arafu prosesau gwneud penderfyniadau.</li> </ul>

<p><b>datblygu cysondeb â strategaethau bioamrywiaeth Llywodraeth y DU, gan atgyfnerthu'r neges bod bioamrywiaeth yn flaenoriaeth uchel yng Nghymru. Yn ogystal â sicrhau nad yw ymdrechion cadwraeth yn cael eu tanseilio, mae'r dull gweithredu hwn yn diogelu enw da Cymru fel gwlad sydd wedi ymrwymo i stiwardiaeth amgylcheddol.</b></p>	
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

## **Costau**

22. Mae'r costau a gyflwynir yn yr adran ganlynol yn cynrychioli cyfanswm y gwariant yr eir iddo dros y cyfnod sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau penodedig.

### ***Cost Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer***

23. Er nad oes unrhyw gostau a buddion ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, rydym yn dadansoddi effaith ariannol rhaglenni grant a chymhorthdal presennol, megis y Gronfa Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a chyllidebau bioamrywiaeth. Y nod yw sefydlu deinameg cost a budd mewn polisïau presennol a dangos gwerth ychwanegol mesurau bioamrywiaeth penodol. Oherwydd yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen, mae'r dadansoddiad hwn yn parhau ar waith. Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio cost gymdeithasol Rhywogaethau Estron Goresgynnol fel astudiaeth achos i ddangos diffyg dichonoldeb opsiwn 1, yn unol ag astudiaeth Eschen et al. (2023) (Eschen, et al., 2023)

### ***Rhywogaethau Estron Goresgynnol***

24. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cael effaith negyddol ar sectorau gwahanol yn y DU, gan achosi difrod i gnydau ac adeiladau a chael effaith ar yr economi. Yn 2019, cofnodwyd 3,224 o rywogaethau o'r fath ym Mhrydain, ac roedd mwy na 2,000 wedi ennill eu plwyf ac yn atgenhedlu. Mae mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol yn hanfodol ar gyfer amcanion amgylcheddol ac ymrwymadau rhyngwladol y DU.



25. Er gwaethaf ymdrechion i reoli'r rhywogaethau hyn, mae eu niferoedd yn parhau i gynyddu, gan bwysleisio'r angen am asesiadau cyfredol a blaenoriaethu dyrannu adnoddau ar sail effeithiau economaidd rhywogaethau estron goresgynnol (Eschen, et al., 2023).
26. Mewn astudiaeth yn 2023, roedd ymchwilyr a ariannwyd gan Defra (Eschen, et al., 2023) wedi canfod bod y rhywogaethau goresgynnol hyn bellach yn costio tua £4014 miliwn i economi'r DU bob blwyddyn. Yn 2021, Lloegr oedd yn wynebu'r gost uchaf (£3022 miliwn), ac yna'r Alban (£499 miliwn), Cymru (£343 miliwn), a Gogledd Iwerddon (£150 miliwn) (Eschen, et al., 2023).
27. O'i gymharu â'r amcangyfrifon blaenorol yn 2010, mae yna gynnydd sylweddol o 45% mewn costau cymharol, ac mae llawer o gostau amcangyfrifedig wedi codi'n uwch na chyfraddau chwyddiant.
28. Mae'r ystyriaeth fanwl isod yn **Error! Reference source not found.** yn dangos dadansoddiad o gostau rhywogaethau estron goresgynnol i sectorau gwahanol, gan ddangos effaith gyffredinol y broblem o wneud dim. Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos y newid mewn gwariant adrannol ers 2010, ac mae **Error! Reference source not found.** cyflwyno'r dadansoddiad mewn gwariant fesul rhywogaeth.

Tabl 1 - Dadansoddiad o gostau blynyddol 2021 ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol yn y DU yn ôl diwydiant, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â ffyngau (Eschen, et al., 2023).

In £m	England	Scotland	Wales	Northern Ireland	UK
Agriculture	£1878	£278	£124	£40	£2321
Forestry	£614	£145	£167	£85	£1010
Quarantine and Surveillance	£19	£4	£1	£1	£24
Aquaculture	£9	£5	£4	£1	£18
Tourism and Recreation	£107	£19	£8	£2	£136
Construction, Development and Infrastructure	£231	£20	£13	£6	£270
Transport	£84	£12	£9	£5	£110
Utilities	£13	£2	£1	£1	£17
Research	£0	£0	£0	£0	£8
Biodiversity and Conservation	£14	£8	£8	£8	£37
Human Health	£54	£6	£8	£2	£71
Subtotal	£3022	£499	£343	£150	£4014

Tabl 2 – Newid canrannol mewn gwariant adrannol blynyddol ers 2010 yn ôl sector a gwlad gan gynnwys cost ffyngau (Eschen, et al., 2023).

	England	Scotland	Wales	Northern Ireland	UK
Agriculture	123.7	78.4	74.7	64.2	112.7
Forestry	1240.4	197.4	1015.6	2942.1	800.6
Quarantine and Surveillance	33.1	177.4	-47.3		37.9
Aquaculture	101.1	579.2	75.0	82.1	139.5
Tourism and Recreation	36.1	42.5	38.5	175.5	38.0
Construction, Development, Infrastructure	18.7	196.4	20.7	82.3	25.4
Transport	33.1	27.3	-1.0	-60.6	16.0
Utilities	48.0	77.7	84.9		64.7
Research					-52.7
Biodiversity and Conservation	23.2	30.2	31.0		-8.9
Human Health	42.7	42.7	42.7	25.6	42.2
Subtotal	132.9	101.4	167.6		134.9

The strong increases in the forestry sector are almost exclusively due to *Hymenoscyphus fraxineus*

Tabl 3 – Cost flynyddol fesul rhywogaeth yn 2021. Nodir ffyngau mewn llythrennau italic (Eschen, et al., 2023).

Species	England	Scotland	Wales	NI	UK
<i>Hymenoscyphus fraxineus</i>	£556.4	£120.3	£125.9	£80.9	£883.5
Japanese Knotweed	£207.4	£21.8	£11.2	£6.0	£246.5
Rabbit	£88.9	£38.1	£39.7	£3.0	£169.7
Rats and mice	£61.0	£8.4	£5.0	£10.0	£84.4
Cockroaches	£53.4	£6.3	£8.2	£1.9	£69.8
Deer	£47.7	£9.8	£4.6	£0.8	£62.9
Grey squirrel	£32.0	£1.1	£1.1	£2.5	£40.6
Varroa mite	£10.7	£5.4	£5.4	£1.0	£22.5
Box tree moth	£15.4	£0.0	£0.0	£0.0	£15.4
Green spruce aphid	£1.4	£10.3	£2.4	£0.5	£14.5
Zebra mussel	£11.2	£0.2	£0.1	£0.6	£12.0
Slipper limpet	£5.0	£0.2	£2.7	£0.0	£7.9
House mouse control	£5.4	£0.8	£0.0	£0.0	£6.3
Rhododendron	£2.2	£3.1	£0.7	£0.2	£6.2
Signal crayfish	£3.7	£0.6	£1.2	£0.0	£5.5
<i>Phytophthora ramorum</i>	£0.7	£1.5	£1.9	£0.0	£4.2
Geese and swans	£2.8	£0.4	£0.8	£0.0	£3.9
<i>Hydrocotyle ranunculoides</i>	£3.3	£0.0	£0.1	£0.1	£3.4
Killer shrimp	£2.4	£0.0	£0.4	£0.0	£2.9
<i>Thaumetopoea processionea</i>	£1.9	£0.0	£0.0	£0.0	£1.9
Giant hogweed	£0.7	£0.2	£0.4	£0.0	£1.4
Buddleia	£0.4	£0.6	£0.4	£0.0	£1.4
Mink	£0.6	£0.1	£0.2	£0.0	£0.9
Edible dormouse	£0.4	£0.0	£0.0	£0.0	£0.4
Dendroctonus micans	£0.1	£0.3	£0.0	£0.0	£0.4
Quagga mussel	£0.1	£0.0	£0.0	£0.0	£0.1
Topmouth gudgeon	£0.1	£0.0	£0.0	£0.0	£0.1
Parakeets	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0
Termites	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0
Himalayan balsam	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0	£0.0

29. Mae Rhywogaethau Estron Goresgynol yn cael effaith ecolegol, economaidd a chymdeithasol sylweddol mewn ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol. O safbwynt economaidd, gallai costau uniongyrchol godi o golledion mewn cynhyrchiant amaethyddol oherwydd plâu goresgynol, a gellid priodoli costau anuniongyrchol i ostyngiad yng ngwerth eiddo oherwydd presenoldeb planhigion goresgynol (Eschen, et al., 2023).

30. Yn ecolegol, mae gan rywogaethau estron goresgynol y gallu i addasu ecosystemau brodorol, lleihau bioamrywiaeth, a chystadlu am adnoddau gyda rhywogaethau brodorol. Gall newidiadau o'r fath arwain at golli gwasanaethau ecosystem hanfodol, gan arwain at ôl-ffeithiau economaidd. O safbwynt cymdeithasol, gall natur hollbresennol rhywogaethau estron goresgynol gael dylanwad niweidiol ar weithgareddau hamdden, gwerth esthetig tirweddau, a hyd yn oed iechyd pobl. Er enghraifft, gallai fflora goresgynol gynyddu mewn parthau hamdden, gan eu gwneud yn anhygyrch, a gallai rhai ffawna


goresgynnol greu bygythiadau newydd i ddiogelwch pobl (Eschen, et al., 2023).

31. Er mwyn gwrthweithio'r niwed hwn, yn aml mae camau unioni yn cael eu cyflwyno i reoleiddio, dileu neu reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Mae strategaethau unioni i frwydro yn erbyn effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol yn cynnwys mesurau ataliol ac adweithiol. Mae rheolaeth fiolegol yn cynnwys cyflwyno ysglyfaethwyr naturiol i leihau niferoedd rhywogaethau goresgynnol, tra bod dulliau cemegol yn defnyddio chwynladdwyr a phlaleiddiaid i'w dileu. Mae prosesau dileu ffisegol ac addasu cynefinoedd yn mynd i'r afael â phlâu lleol. Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn addysgu cymunedau i adnabod a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, ac mae dulliau integredig, sy'n cyfuno amryw o dactegau, yn cynnig dulliau rheoli hirdymor effeithiol (Eschen, et al., 2023). Mae'n amlwg bod mesurau o'r fath yn ddulliau adweithiol o ymdrin â'r heriau sy'n cael eu hachosi gan rywogaethau estron goresgynnol. O ganlyniad, mae'r rhwymedigaethau ariannol ar gyfer y camau unioni hyn yn rhan fach o'r costau mawr i gymdeithas sy'n deillio o rywogaethau estron goresgynnol (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022).
32. Yn y bôn, mae'r beichiau ariannol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau estron goresgynnol yn ymestyn i gymdeithas yn ehangach, gan gwmpasu goblygiadau economaidd, ecolegol a chymdeithasol, ac maent yn amlwg hefyd yn y buddsoddiadau i geisio eu rheoli a'u lliniaru.
33. Yn 2010, amcangyfrifwyd bod cost rhywogaethau estron goresgynnol i Gymru yn £147 miliwn, sy'n golygu bod y gost wedi cynyddu £196 miliwn mewn 11 mlynedd. Os yw'r cynnydd yn llinol, byddai'r gost flynyddol wedi cynyddu  $\approx$  £17.8 miliwn, sy'n dangos cost ychwanegol sylweddol, ac felly'n dangos effaith ychwanegol diffyg gweithredu (Eschen, et al., 2023).
34. Gan barhau â'r duedd hon, mae'r gost gymdeithasol ar gyfer 2024 yn cynyddu i £396.4m. Dangosir hyn isod gan ddefnyddio cyfres rhifyddeg gan ddechrau o  $a_0$ :
- $$\begin{aligned} \text{Cost rhywogaethau estron goresgynnol 2024} & & (1) \\ &= [\text{Costau 2021} + (\text{nifer y blynyddoedd hyd at 2024}) \\ &\quad * \text{Cynnydd Blynyddol}] \end{aligned}$$
- $$\text{Cost rhywogaethau estron goresgynnol 2024} = [\text{£343m} + (3) * 17.8] \quad (2)$$
- $$\text{Cost rhywogaethau estron goresgynnol a ragwelir yn 2024} = \text{£396.4m} \quad (3)$$
35. Gellir gweld cyfanswm y gost o 2021 i 2042 yn Nhabl 7 isod. Nid yw'r gwerthoedd hyn wedi'u haddasu ar gyfer y gwerth presennol gan mai'r gwerthoedd hyn yw'r gwariant ym mhob un o'r blynyddoedd penodol.

Tabl 7 – Dadansoddiad o wariant blynyddol ychwanegol ar rywogaethau estron goresgynnol o 2021 i 2042

Blwyddyn	2021	2024	2027	2030	2033	2036	2039	2042
Gwariant Blynyddol ar Rywogaethau Estron Goresgynnol /£m	343	396.4	449.8	503.2	556.6	610	663.4	716.8
Cynnydd ers 2021 /£m	0	53.4	106.8	160.2	213.6	267	320.4	373.8
Cyfanswm gwariant ychwanegol cronnus o 2024 ymlaen /£m		0	106.8	373.8	801	1388.4	2136	3043.8

36. Yn Nhabl 7, ar gyfer y cyfnod 2024 i 2042, rhagwelir y bydd costau'n cynyddu i £716.8m y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm cost ychwanegol i gymdeithas o £3043.8m dros y 18 mlynedd rhwng 2024 a 2042 os nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd. Mae perygl y bydd costau blynyddol yn mynd yn llethol yn gyflym, fel y dangosir yn Ffigur 4. Rhaid nodi bod hwn yn fodel rhagfynegi llinol sy'n seiliedig ar dueddiadau presennol, ac felly gall y gyfradd yn y cynnydd mewn costau fod hyd yn oed yn fwy dramatig wrth i gyfraddau rywogaethau estron goresgynnol gynyddu'n esbonyddol.



Ffigur 1 - Model Rhagfynegi Llinol ar gyfer Gwariant Blynyddol ar Rywogaethau Estron Goresgynnol a Chyfanswm Gwariant Cronnus

37. Mae hyn yn cyfateb i wariant ychwanegol o £106.8m y flwyddyn am y cyfnod hwn.

***Cyfanswm cost ychwanegol i gymdeithas oherwydd rhywogaethau estron goresgynnol am y cyfnod 2024-2042 = £3043.8m***

### ***Cost Opsiwn 2 – Mesurau anneddfwriaethol***

38. Byddai'r rhan fwyaf o'r costau yr eir iddynt yn ymwneud â chostau staffio i ddiweddarau polisïau adnoddau naturiol, y cynllun gweithredu adfer natur a gwneud rhagor o waith monitro. Y tu hwnt i hyn, mae'r dadansoddiad a wnaed ar gyfer Opsiwn 1 yn berthnasol i'r opsiwn hwn hefyd, gan gynnwys cost i gymdeithas Rhywogaethau Estron Goresgynnol fel astudiaeth achos i ddangos diffyg dichonoldeb yr opsiwn, yn unol ag astudiaeth Eschen et al. (2023) (Eschen, et al., 2023). Y rheswm am hyn (ar sail y cynlluniau presennol sydd ar waith) yw bod yr opsiwn yn annhebygol o fynd i'r afael â'r broblem yn effeithiol heb gamau gweithredu mwy sylweddol.

Byddwn hefyd yn cwblhau dadansoddiad pellach o effaith ariannol rhaglenni grant a chymorthdaliadau presennol, fel y Gronfa Cyfalaf Lleuedd Lleol ar gyfer Natur a'r gyllideb bioamrywiaeth er mwyn pennu deinameg cost a budd polisïau cyfredol a dangos gwerth ychwanegol mesurau bioamrywiaeth anneddfwriaethol penodol.

### ***Cost Opsiwn 3 – Cynnwys Cyfres o Dargedau Bioamrywiaeth***

39. Nod yr adran ganlynol yw mesur cost a budd cyfres o dargedau bioamrywiaeth sydd â'r nod o atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau bod Cymru yn gallu cydymffurfio â'r nod 30x30 sydd wedi'i nodi yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Nid yw'r dull yn debyg i Opsiwn 1, ond bwriedir iddo ddangos cost a budd y targedau hyn y mae angen amlwg amdanynt.
40. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r targedau wedi'u nodi'n ffurfiol eto, ac o'r herwydd, mae targedau Defra yn cael eu defnyddio fel procsi ar gyfer targedau Cymru.
41. Mae Defra wedi nodi tri tharged hirdymor allweddol ar gyfer Lloegr (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022):
- Creu a/neu adfer cynefinoedd â blaenoriaeth y tu allan i safleoedd gwarchoddedig.
  - Cynyddu toreithrwydd rhywogaethau.
  - Atal diflaniad rhywogaethau.

42. Cyflwynir yr holl gostau dros gyfnod o 18 mlynedd rhwng 2024 a 2042. Dyma'r amser y rhagwelir y bydd hi'n cymryd i gyrraedd y targedau. Mae pob un o'r costau hyn yn gostau ychwanegol (h.y. y costau sy'n ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei wario yn y meysydd hyn ar hyn o bryd).

### **Targedau ar gyfer Rhywogaethau**

43. Dyma'r targedau ar gyfer rhywogaethau a gafodd eu nodi yn Lloegr gan Defra:

- Atal y dirywiad yn nhoreithrwydd rhywogaethau erbyn 2030 a chynyddu toreithrwydd rhywogaethau o leiaf 10% erbyn 2042, o'i gymharu â lefelau 2030.
- Gwella Mynegai Rhestr Goch Prydain ar lefel Lloegr ar gyfer y risg o ddiflaniad rhywogaethau erbyn 2042, o'i gymharu â 2022.

### Lloegr

44. Ar gyfer y targedau ar gyfer rhywogaethau (cost flynyddol gyfartalog o £206.6m yn Lloegr), y costau mwyaf sylweddol yw cost mabwysiadu dulliau rheoli tir sy'n cynnal rhywogaethau eang, cost camau unioni i wella cyflwr safleoedd gwarchoddedig, a chamau gweithredu wedi'u targedu i gefnogi rhywogaethau dan fygythiad.

45. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfanswm cost canlynol ar gyfer 2024 – 2042:

$$\text{Costau Targedau Rhywogaethau Lloegr} = [\text{£}206.6\text{m}] * [18 \text{ mlynedd}] \quad (4)$$

$$\text{Costau Targedau Rhywogaethau Lloegr} = \text{£}3718.8\text{m} \quad (5)$$

### Cymru

46. Gan ddefnyddio hafaliad Barnett, cost y targedau ar gyfer rhywogaethau yn Lloegr (£3718.8m), canran gymharedd o 0.969%, a chymhareb boblogaeth o 0.055, gallwn gyfrifo costau targedau ar gyfer rhywogaethau yng Nghymru:

$$\begin{aligned} (\text{Cost Targedau Rhywogaethau Cymru})_{pob} & \quad (6) \\ & = [\text{Cost Targedau Rhywogaethau Lloegr}] * [CP] * [PR] \end{aligned}$$

$$(\text{Cost Targedau Rhywogaethau Cymru})_{pob} = [\text{£}3718.8] * [0.969] * [0.055] \quad (7)$$

$$(\text{Cost Targedau Rhywogaethau Cymru})_{pob} = \text{£}142.4\text{m} \quad (8)$$

47. Gan ddefnyddio cost y targedau ar gyfer rhywogaethau yn Lloegr a'r gymhareb arwynebedd o 0.159:

$$(Cost\ Targedau\ Rhywogaethau\ Cymru)_{arwynebedd} \quad (9)$$

$$= [Cost\ Targedau\ Rhywogaethau\ Lloegr] * [AR]$$

$$(Cost\ Targedau\ Rhywogaethau\ Cymru)_{arwynebedd} = [£3718.8] * [0.159] \quad (10)$$

$$(Cost\ Targedau\ Rhywogaethau\ Cymru)_{arwynebedd} = £591.3m \quad (11)$$

### **Cyfanswm Cost Targedau Rhywogaethau 2024 – 2042**

$$= £142.4m – £591.3m$$

#### **Targed Cynefinoedd Ehangach**

48. Mae'r targedau Cynefinoedd Ehangach yn Lloegr, fel yr amlinellwyd gan Defra, wedi'u nodi fel a ganlyn (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022):

- Creu neu adfer dros 500,000 hectar o amrywiaeth o gynefinoedd llawn bywyd gwyllt y tu allan i safleoedd gwarchoddedig erbyn 2042 o'i gymharu â lefelau 2022.

#### Lloegr

49. Ar gyfer y targed cynefinoedd ehangach (cost flynyddol gyfartalog o £53.8m yn Lloegr), mae'r costau yr eir iddynt yn gysylltiedig â chreu, adfer a chynnal cynefinoedd llawn bywyd gwyllt. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfanswm cost canlynol ar gyfer 2024 – 2042:

$$Costau\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr = [£53.8m] * [18\ mlynedd] \quad (12)$$

$$Costau\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr = £968.4m \quad (13)$$

#### Cymru

50. Gan ddefnyddio hafaliad Barnett, costau'r targed cynefinoedd ehangach yn Lloegr (£968.48m), cymhareb gymharedd o 0.969%, a chymhareb boblogaeth o 0.055, gallwn gyfrifo costau targedau cynefinoedd ehangach yng Nghymru:

$$(Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} \quad (14)$$
$$= [Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr] * [CP] * [PR]$$

$$(Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} \quad (15)$$
$$= [£968.4m] * [0.969] * [0.055]$$



$$(Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} = \text{£}51.6m \quad (16)$$

51. Gan ddefnyddio cost y targed cynefinoedd ehangach yn Lloegr a'r gymhareb arwynebedd o 0.159:

$$(Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{arwynebedd} \quad (17)$$

$$= [Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr] * [AR]$$

$$(Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{arwynebedd} \quad (18)$$

$$= [\text{£}968.4m] * [0.159]$$

$$(Cost\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{arwynebedd} = \text{£}154.0m \quad (19)$$

**Cyfanswm cost Targedau Cynefinoedd Ehangach ar gyfer 2024 – 2042**

$$= \text{£}51.6m - \text{£}154.0m$$

**Crynodeb o'r Costau:**

52. Rydym wedi darparu dadansoddiad manwl o oblygiadau ariannol mynd i'r afael â heriau bioamrywiaeth ac amgylcheddol yn y DU yn yr adran flaenorol, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith Rhywogaethau Estron Goresgynnol a chostau posibl rhoi targedau bioamrywiaeth ar waith. Mae'r costau'n amrywio yn dibynnu ar y maes ffocws penodol, ac mae angen buddsoddiad sylweddol mewn rhai meysydd i fynd i'r afael â'r heriau yn effeithiol. Mae'r neges gyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno mesurau rhagweithiol i ddiogelu'r amgylchedd, a'r canlyniadau ariannol sy'n gallu deillio o beidio â gweithredu.
53. Cyfanswm cost Busnes fel Arfer a gwneud dim yw 0. Fodd bynnag, bydd cymdeithas yn wynebu niwed amlwg os nad ydym yn mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Os ydym yn defnyddio targedau opsiwn 3 i ymdrin â'r mater hwn, bydd yn arwain at fudd sylweddol a fydd yn cael ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen.
54. **Cyfanswm y costau yng Nghymru o'i gymharu â gwariant Defra ar dargedau cynefinoedd ehangach a rhywogaethau yw £194m i £745.3m dros y cyfnod 2024-2042.**
55. Amcangyfrifon yw'r costau hyn ac rydym yn cydnabod bod llawer o amrywiant rhwng y swm uchaf a'r swm isaf. Bydd dadansoddiad pellach yn cael ei wneud unwaith y bydd y targedau penodol yng Nghymru wedi'u gosod er mwyn cyfrifo gwerthoedd mwy cywir.

## **Manteision**

56. At ddibenion y dadansoddiad hwn, oherwydd y tebygrwydd mawr rhwng diwylliant a daearyddiaeth Cymru a Lloegr, cyfrifir manteision y targedau sydd wedi'u nodi i Gymru gan ddefnyddio cymhariaeth poblogaeth ac arwynebedd â Lloegr fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn (a gweler Atodiad A). Mae gwybodaeth am fethodoleg Defra wedi'i chyflwyno isod.
57. Cychwynnodd Defra brosiect ymchwil (8) yn 2021, dan arweiniad ICF ac etfec, i ymchwilio i fanteision rhoi nodau bioamrywiaeth ar waith trwy'r "dull cyfalaf naturiol." Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud yn bennaf â rhinweddau creu ac adfywio cynefinoedd oddi mewn a'r tu allan i ardaloedd gwarchoddedig. Fodd bynnag, ni chafodd rhai ystyriaethau cadwraeth eu gwerthuso'n drylwyr oherwydd cyfyngiadau.
58. Roedd y canfyddiadau'n awgrymu y gallai manteision ariannol cadwraeth fwy cynhwysfawr ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau gael eu tanbrisio. Roedd y manteision amlwg yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, fel atafaelu carbon, a manteision i bobl fel gweithgareddau hamdden ac iechyd. Rhagdybiwyd y byddai'r rhan fwyaf o gynefinoedd newydd yn cael eu lleoli ar diroedd ffermio, ac amcangyfrifwyd manteision posibl trawsnewidiadau o'r fath. Dros amser, disgwylir i werth cynefinoedd sydd wedi'u hadsefydlu gynyddu, tra gallai hyd yn oed cynefinoedd sy'n cael eu cynnal yn dda ddirywio heb waith cynnal a chadw cyson dros gyfnod o 60 mlynedd.
59. Roedd yr astudiaeth yn cydnabod ei rhagdybiaethau, yn enwedig yn ymwneud â'r enillion o gynefinoedd sydd wedi dirywio, gan nodi nad yw rhai o'i chasgliadau'n gwbl bendant. Rhagwelir y bydd adolygiad manylach yn cael ei lunio cyn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r astudiaeth.
60. Mae'r adroddiad yn gwerthuso manteision ar sail dau brif amcan:
- Nodau ar gyfer Cynefinoedd Eang.
  - Mentrau ar gyfer Diogelu Rhywogaethau mewn Safleoedd Dynodedig.
61. Cyfrifodd yr astudiaeth fanteision ar gyfer cyfnod o 78 mlynedd, o 2022 i 2100 (gan ei bod yn gallu cymryd degawdau i ddangos manteision amgylcheddol yn llawn), cyn eu haddasu i ddangos y budd blynyddol.
62. Mae'r adran ganlynol yn trosi manteision o gyd-destunau Lloegr i Gymru, ar sail poblogaeth neu arwynebedd daearyddol fel arfer, gyda'r wybodaeth gefndir angenrheidiol. Yna mae'r manteision yn cael eu cyflwyno ar raddfa fwy i gynrychioli cyfanswm y manteision dros y cyfnod o 78 mlynedd rhwng 2022 a 2100. Mae'n bwysig iawn pwysleisio mai amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn.
63. Wrth archwilio'r cysylltiad rhwng Opsiwn 3 (sy'n ceisio gwella bioamrywiaeth a chadwraeth cynefinoedd) a'r costau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol a drafodwyd yn Opsiwn 1, mae'n amlwg bod gofalu'n dda am ein hamgylcheddau naturiol yn gallu helpu i reoli'r rhywogaethau goresgynnol hyn ac o bosibl leihau'r costau cysylltiedig. Mae rheoli cynefinoedd a rhywogaethau gwahanol mewn ffordd briodol yn allweddol i leihau'r niwed sy'n

cael ei achosi gan rywogaethau goresgynnol. Er nad oes gennym ffigurau manwl am y graddau y bydd rheoli bioamrywiaeth yn well o dan Opsiwn 3 yn lleihau'r costau a nodwyd yn Opsiwn 1, mae'n amlwg bod diogelu ac adfer cynefinoedd naturiol yn hanfodol ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r strategaethau a'r nodau yn Opsiwn 3 helpu i leihau effaith ariannol ac amgylcheddol rhywogaethau goresgynnol, sydd o fudd i gymdeithas yn y pen draw.

64. Felly, rydym yn rhagdybio y bydd cyflawni'r nodau a osodwyd yn Opsiwn 3 yn helpu i atal y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol, ac y bydd yr effaith hon yn cael ei hystyried yn un gadarnhaol dros y cyfnod pan fydd y nodau hyn yn weithredol (2024-2042).

### ***Disgrifiad o Fanteision***

65. Mae'r canlynol yn disgrifio methodoleg Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022) i gyfrifo ffigurau manteision amrywiol.

### ***Atafaelu Carbon***

66. Mewn ymdrech i fesur storio carbon, aseswyd galluoedd atafaelu carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>) ar wlyptiroedd a glaswelltiroedd. Yna cafodd lefelau'r CO<sub>2</sub>e sy'n cael ei amsugno gan y cynefinoedd hyn ei luosi â'r pris sefydledig yn 2019 ar gyfer tonnell o CO<sub>2</sub>e. Pan fydd tir amaethyddol yn newid i gynefinoedd fel gwlyptiroedd neu laswelltiroedd, mae cyfradd atafaelu benodol am y 10 mlynedd gyntaf yn cael ei defnyddio. Ar ôl hynny, defnyddir cyfradd atafaelu gyfartalog. Er mwyn canfod y lefel atafaelu gyfanredol, lluosir y cyfraddau hyn â'r newid net mewn hectarau'r cynefinoedd sy'n deillio o weithredu polisi.
67. Mae'n werth nodi bod yr amcangyfrifon presennol yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y trosiad tir cyffredinol rhwng Cymru a Lloegr, heb wahaniaethu rhwng y cyfrannau penodol o laswelltiroedd, gwlyptiroedd, ardaloedd morol ac arfordiroedd ym mhob gwlad. Byddai modd creu amcangyfrif mwy manwl trwy ystyried y dosbarthiad hwn.

### ***Ansawdd Aer***

68. Mae astudiaeth Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022) yn disgrifio budd ansawdd aer fel y manteision iechyd pan mae coetiroedd yn gwaredu deunydd gronynnol (PM<sub>2.5</sub>) o'r aer. Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar lefelau is o gysylltiad pobl â'r llygryddion hyn a gostyngiad cysylltiedig mewn costau gofal iechyd. Nid yw Asesiad Effaith Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022) yn cynnwys manteision puro aer gan goetiroedd y tu allan i ranbarthau gwarchoddedig, ond mae'r rhai mewn ardaloedd gwarchoddedig, fel rhan o dargedau rhywogaethau, wedi'u cynnwys. Cyfrifir y gwelliant ansawdd aer blynyddol net ar gyfer coetiroedd mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae gwerth tynnu PM<sub>2.5</sub> yn cael ei luosi ag arwynebedd y coetir mewn SoDdGAu sy'n cael eu hadfer. Mae'r gwerth hwn yn ystyried costau gofal iechyd a arbedwyd a gwerthoedd lles, fel y nodwyd gan CEH ac effec yn

2019 gan ddefnyddio <https://shiny-apps.ceh.ac.uk/pollutionremoval/>, ac yn ystyried newidiadau mewn llygredd a phoblogaeth rhwng 2015 a 2030, gan sefydlogi wedi hynny.

69. Unwaith eto, mae'r amcangyfrifon presennol yn rhagdybio cymhareb gymharol gyson o safbwynt cynefinoedd rhwng Cymru a Lloegr. Er mwyn cael amcangyfrifon mwy cywir o'r manteision, rhaid i'r fethodoleg amlinellol gael ei chymhwyso i ddaearyddiaeth Cymru.

### **Hamdden**

70. Mae manteision hamdden yn deillio o ymweld â mannau gwyrdd a'r manteision lles ac iechyd cysylltiedig. Mae'r adnodd Prisio Hamdden Awyr Agored (ORVal) (<https://www.leep.exeter.ac.uk/orval/>) yn meintioli'r manteision hyn ar gyfer cynefinoedd sydd newydd eu creu neu wedi eu hadfer. Oherwydd ansicrwydd am leoliadau'r cynefinoedd hyn yn y dyfodol, fe aeth ORVal ati i werthuso 150 o safleoedd posibl ar sail chwe ardal gynrychioliadol, gan ddarparu gwerth cyfartalog i Loegr.
71. Dadansoddwyd chwe Awdurdod Lleol yn Lloegr er mwyn deall yr amrywiadau o ran manteision ar sail lleoliad. Mae perthynas aflinol yn bodoli rhwng maint mannau gwyrdd a chyfradd ymweliadau, gyda lleoedd mwy o ran maint yn creu llai o fanteision ychwanegol.
72. Gan ddefnyddio maint cyfartalog Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) fel procsi, amcangyfrifir bod pob cynefin yn 250 hectar. Amcangyfrifodd yr adnodd ORVal gyfanswm yr ymweliadau ac ymweliadau newydd, gyda'r gwerthoedd a adroddwyd yn adlewyrchu lles ymweliadau newydd. Amcangyfrifir mai dim ond hanner y cynefinoedd hyn sy'n hawdd eu cyrraedd, gyda manteision hamdden yn sefydlogi bum mlynedd ar ôl creu cynefinoedd.
73. Er mwyn gwella cywirdeb yr amcangyfrif o fanteision yng Nghymru, bydd angen cymhwyso'r dull hwn gan ddefnyddio'r adnodd ORVal yng Nghymru.

### **Iechyd Corfforol**

74. Pan fydd pobl yn ymweld ag ardaloedd naturiol sydd newydd eu creu neu sydd wedi eu hadfer a'u bod yn egniol yn ystod eu hymweliadau, bydd hynny'n arwain at fanteision iechyd. Mae tua hanner yr ymweliadau hyn yn cael eu hystyried yn 'egniol', sy'n golygu bod yr ymwelydd yn symud digon i fodloni canllawiau iechyd penodol. Ar gyfer ardaloedd naturiol newydd, mae nifer y bobl sy'n ymweld ac sy'n egniol yn cynyddu am y pum mlynedd gyntaf, yna mae'r lefel yn aros yr un fath. Mae'r ymweliadau egniol hyn yn gwella iechyd, wedi'i fesur gan fetrig o'r enw blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALY), lle mae QALY sero yn dynodi marwolaeth, ac 1 yn dynodi iechyd llawn.
75. Po fwyaf o ymarfer corff y bydd unigolyn yn ei wneud, gorau oll yw ei QALY. Yn ogystal â hybu iechyd unigolion, mae hyn yn arbed arian i'r system gofal iechyd. Mae'r arbedion yn seiliedig ar faint y byddai'n ei gostio i'r system pe

na bai'r gwelliannau iechyd hyn yn digwydd. Rhagdybir y bydd y gwerth ariannol hwn yn aros yn ddigynfnewid dros amser. Felly, gall creu neu adfer ardaloedd naturiol arwain at fanteision iechyd ac economaidd. Mae'r fethodoleg hon yn dilyn y canllawiau a amlinellir yn ENCA. Ar gael yn: [www.gov.uk/guidance/enabling-anatural-capital-approach-enca](http://www.gov.uk/guidance/enabling-anatural-capital-approach-enca).

## **Amcangyfrif o Fanteision Gwerth Presennol ar gyfer y Targed Cynefinoedd Ehangach**

76. Gan ddefnyddio hafaliadau (6), (9), (14), a (17) mae modd amcangyfrif yr ystod o fanteision yng Nghymru, ar sail gwerthoedd Lloegr a nodir yn adroddiad Defra (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022). Isod ceir manylion y manteision yn Lloegr a'r gwerthoedd wedi'u haddasu ar gyfer Cymru ar gyfer manteision Targedau Cynefinoedd Ehangach.

### Lloegr

77. Dros y cyfnod 78 mlynedd a amlinellir yn adroddiad Defra, cyfanswm y manteision Targedau Cynefinoedd Ehangach yn Lloegr yw:

- Atafaelu Carbon: £2,899 miliwn.
- Hamdden: £3,778 miliwn.
- Iechyd Corfforol: £1,171 miliwn.
- Cyfanswm: £7,848 miliwn.

### Cymru

78. Gan ddefnyddio hafaliad Barnett, cyfanswm manteision y Targed Cynefinoedd Ehangach yn Lloegr (£7,848m), canran gymharedd o 0.969%, a chymhareb boblogaeth o 0.055, gallwn gyfrifo manteision targedau cynefinoedd ehangach yng Nghymru ar sail poblogaeth.

$$\begin{aligned} (Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} & \quad (20) \\ & = [Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr] * [CP] \\ & * [PR] \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} (Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} & \quad (21) \\ & = [£7,848m] * [0.969] * [0.055] \end{aligned}$$

$$(Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{pob} = £418.0m \quad (22)$$

79. Gan ddefnyddio manteision y targed cynefinoedd ehangach yn Lloegr a'r gymhareb arwynebedd o 0.159:

$$\begin{aligned} (Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Cymru)_{arwynebedd} & \quad (23) \\ & = [Manteision\ Targed\ Cynefinoedd\ Ehangach\ Lloegr] * [AR] \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} & (\text{Manteision Targed Cynefinoedd Ehangach Cymru})_{\text{arwynebedd}} & (24) \\ & = [\text{£7848m}] * [0.159] \end{aligned}$$

$$(\text{Manteision Targed Cynefinoedd Ehangach Cymru})_{\text{arwynebedd}} = \text{£1247.8m} \quad (25)$$

**Cyfanswm yr amcangyfrif o Fanteision Targed  
Cynefinoedd Ehangach Cymru**

$$\text{= £418m – £1247.8m}$$

80. Cyfansymiau yng Nghymru fesul mantais:

- Atafaelu Carbon: £154.5m – £460.9m
- Hamdden: £201.3m – £600.7m
- Iechyd Corfforol: £62.4m – £186.2m

**Amcangyfrif o Fanteision Gwerth Presennol Camau Gweithredu  
Safleoedd Gwarchodedig ar gyfer Targedau Rhywogaethau**

Lloegr

81. Dros y cyfnod 78 mlynedd a amlinellir yn adroddiad Defra, cyfanswm manteision Targedau Rhywogaethau yn Lloegr yw (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022):

- Atafaelu Carbon: £2404 miliwn
- Rheoleiddio ansawdd aer: £740 miliwn
- Hamdden: £3131 miliwn
- Iechyd Corfforol: £1000 miliwn
- Cyfanswm: £7,275 miliwn

Cymru

82. Gan ddefnyddio hafaliad Barnett, cyfanswm manteision y Targedau Rhywogaethau yn Lloegr (£7,275m), canran gymharedd o 0.969%, a chymhareb boblogaeth o 0.055, gallwn gyfrifo manteision y Targedau Rhywogaethau yng Nghymru ar sail poblogaeth.

83. Gan ddefnyddio hafaliad Barnett, cost y targedau rhywogaethau yn Lloegr, canran gymharedd o 0.969%, a chymhareb boblogaeth 0.055, gallwn gyfrifo costau targedau rhywogaethau yng Nghymru:

$$\begin{aligned} & (\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{\text{pob}} & (26) \\ & = [\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Lloegr}] * [CP] * [PR] \end{aligned}$$

$$\begin{aligned} & (\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{pob} & (27) \\ & = [\text{£7,275M}] * [0.969] * [0.055] \end{aligned}$$

$$(\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{pob} = \text{£387.7m} \quad (28)$$

84. Gan ddefnyddio Manteision Targedau Rhywogaethau yn Lloegr a'r gymhareb arwynebedd o 0.159:

$$\begin{aligned} & (\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{arwynebedd} & (29) \\ & = [\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Lloegr}] * [AR] \end{aligned}$$

$$(\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{arwynebedd} = [\text{£7,275}] * [0.159] \quad (30)$$

$$(\text{Manteision Targedau Rhywogaethau Cymru})_{arwynebedd} = \text{£1156.7m} \quad (31)$$

**Cyfanswm yr amcangyfrif o Fanteision Targedau  
Rhywogaethau Cymru**

$$\text{= £387.7m – £1156.7m}$$

85. Cyfanswm yng Nghymru fesul mantais:

- Atafaelu Carbon: £128.1m – £382.2m
- Rheoleiddio ansawdd aer: £39.4m – £117.7m
- Hamdden: £166.9m – £497.8m
- Iechyd Corfforol: £53.3m – £159.0m

**Cyfanswm Manteision**

86. Mae cyfanswm yr ystod o fanteision yn cael ei gyfrifo trwy ddefnyddio swm yr ystod o fanteision o dargedau rhywogaethau a thargedau cynefinoedd ehangach:

**Cyfanswm yr amcangyfrif o Fanteision Targedau  
Rhywogaethau a Thargedau Cynefinoedd Ehangach  
Cymru**

$$\text{= £805.7m – £2404.5m}$$

## **Gwerth Presennol Net**

### ***Gwerth Presennol Net Opsiwn 1***

87. Ar gyfer y drafft presennol o'r dadansoddiad hwn, cost diffyg gweithredu yw £0 gan mai dyma'r llinell sylfaen ar gyfer opsiwn 3. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd peidio â gweithredu yn niweidiol i gymdeithas fel y dangosir gan astudiaeth achos Rhywogaethau Estron Goresgynnol, gan eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar ddiflaniad a thoreithrwydd rhywogaethau, ac ar ansawdd cynefinoedd.
88. Nid yw manteision deddfwriaeth bresennol yn cael eu hystyried hyd yma yn y drafft hwn.

### ***Gwerth Presennol Net Opsiwn 3***

89. Amcangyfrifon Gwerth Presennol Dros Gyfnod o 78 Mlynedd rhwng 2022 a 2100. Yn seiliedig ar Aseiad Effaith DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), 2022).
- Cyfanswm y Costau ar gyfer targedau rhywogaethau a chynefinoedd ehangach: £194m – £745.3m
  - Cyfanswm y Manteision o dargedau rhywogaethau a chynefinoedd ehangach: £805.7m – £2404.5m
  - Gwerth Presennol Net o dargedau rhywogaethau a chynefinoedd ehangach = £611.7m – £1659.2m
90. Mae manteision atal costau cynyddol rhywogaethau estron goresgynnol dros y cyfnod 2024 – 2040 yn cyfateb i: £3043.8m
91. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig ag atal costau cynyddol rhywogaethau estron goresgynnol. Rhoddir rhagor o ystyriaeth i nodi a meintoli'r costau hyn yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Er enghraifft, mae dadansoddiad WEL wedi darparu amcangyfrif o oddeutu £20.7m y flwyddyn, ar sail argymhellion adroddiad gan Wildlife and Countryside Link. Mae'r costau posibl hyn yn cynnwys cyflogi 340 o staff, cefnogi 75,000 o wirfoddolwyr, a chontractio 2,000 o weithwyr.
92. Ychwanegir hyn fel llinell sylfaen at drothwyon is ac uwch cyfrifiad y Gwerth Presennol Net.

***Cyfanswm Gwerth Presennol Net Opsiwn 3 =  
£3655.5m – £4703.0m***

***Crynodeb o Werth Presennol Net.***



**Dadansoddiad Cost a Budd o gyfres o dargedau yn unol â "30x30" fel y'i nodir gan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang**

<b>Opsiynau 1 a 2 – Dim targedau statudol a dibyniaeth ar fecanweithiau presennol</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Gwerth Presennol Net</b>
	<p>Mae Cymru yn defnyddio ei fframwaith deddfwriaethol presennol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan ganolbwyntio ar reoli adnoddau yn gynaliadwy ac adfer bioamrywiaeth. Fodd bynnag, heb dargedau statudol mae'r dull gweithredu presennol yn wynebu heriau o ran atebolrwydd ac effeithlonrwydd, gan arwain at ddirywiad posibl pellach mewn bioamrywiaeth, fel yr amlygwyd gan sefyllfa rhywogaethau fel gwiwerod coch a llygod y dŵr.</p>	<p>Llinell sylfaen ac felly dim cost na mantais = £0m</p>
<b>Opsiwn 3 - Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth Statudol</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Gwerth Presennol Net</b>
	<p>Mae Opsiwn 3 yn strategaeth bioamrywiaeth Cymru yn cyflwyno targedau statudol ar gyfer prosesau monitro ac atebolrwydd gwell, gan ganolbwyntio ar wrthdroi'r dirywiad mewn rhywogaethau ac adfer cynefinoedd. Mae'n addo mwy o atebolrwydd a chysondeb â thargedau Llywodraeth y DU ond mae'n wynebu heriau fel costau uwch ac oedi biwrocraidd posibl. Mae'r dull gweithredu hwn yn ymrwymiad rhagweithiol i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.</p> <p>Mae'n cael ei feintoli trwy gymhariaeth briodol yn ôl arwynebedd a phoblogaeth â thargedau tebyg a osodwyd gan Defra. Yn ogystal, mae mantais sylweddol yn deillio o atal y cynnydd mewn costau i gymdeithas oherwydd Rhywogaethau Estron Goresgynol.</p>	<p>Gwerth Presennol Net targedau rhywogaethau a chynefinoedd ehangach = £611.7m– £1659.2m</p> <p>Mae manteision atal costau cynyddol Rhywogaethau Estron Goresgynol dros y cyfnod 2024 – 2040 yn cyfateb i: £3043.8m</p> <p>Cyfanswm Gwerth Presennol Net Opsiwn 3 = £3655.5m – £4703.0m</p>

**Casgliad**

93. Gwerth net presennol sefydlu targedau rhywogaethau a chynefinoedd ehangach = £3655.5m – £4703.0m dros gyfnod y prosiectau hyn.

94. Amcangyfrif cyntaf yw hwn a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud wrth ddatblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn barhaus. Fodd bynnag, mae sail resymegol glir bod y manteision yn rhagori ar gostau gweithredu'r camau hyn.